# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 2 Chwefror 2022

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Lleu Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwylliant@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

## Cofrestru cyn y cyfarfod

(09.00-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Ymchwiliad undydd i Gysylltiadau Rhyngwladol: Cymry ar wasgar a rhyngwladol

(09.30-10.15) (Tudalennau 1 - 11)

Susie Ventris-Field, Prif Swyddog Gweithredol, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

Claire O'Shea, Cadeirydd, Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru

Zara May, Pennaeth Cymunedau a Gweithrediadau, GlobalWelsh

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

## Egwyl

(10.15-10.25)

## 3 Ymchwiliad undydd i Gysylltiadau Rhyngwladol: Ewrop a rhyngwladol

(10.25-11.10)

Jenny Scott, Cyfarwyddwr, British Council

Charles Whitmore, Cydymaith Ymchwil o Ganolfan Llywodraethiant Cymru

Ben Lloyd, Pennaeth Polisi, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Berwyn Davies, Pennaeth Swyddfa, Addysg Uwch Cymru Brwsel

## Egwyl

(11.10-11.20)

## 4 Ymchwiliad undydd i Gysylltiadau Rhyngwladol: Chwaraeon, diwylliant a'r celfyddydau (rhyngwladol)

(11.20-12.05) (Tudalennau 12 - 23)

Noel Mooney, Prif Swyddog Gweithredol, Cymdeithas Bêl-droed Cymru

Eluned Hâf, Pennaeth, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

Sian Lewis, Prif Weithredwr, Urdd Gobaith Cymru

Tystiolaeth ysgrifenedig gan Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

Tystiolaeth ysgrifenedig gan Urdd Gobaith Cymru

## 5 Papurau i'w nodi

(12.05)

### 5.1 Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 'Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr'.

(Tudalennau 24 - 26)

### 5.2 Llythyr gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch llythyrau cylch gwaith at Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru

(Tudalennau 27 - 83)

**6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

(12.05)

**7 Ôl-drafodaeth breifat**

(12.05-12.10)

**8 Craffu ar Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23: Trafod yr adroddiad drafft**

(12.10-12.20) (Tudalennau 84 - 102)

**9 Adolygiad o amserlen a chylchoedd gwaith y pwyllgor: Trafod yr ohebiaeth ddrafft**

(12.20-12.25) (Tudalennau 103 - 106)

**10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael): Trafod Nodyn Cyngor Cyfreithiol**

(12.25-12.30) (Tudalennau 107 - 114)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

*Yn bont rhwng bro a byd*

## Cipolwg ar Waith Strategol Rhyngwladol

## Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

**Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn cefnogi rhoi gwedd ryngwladol i gelfyddydau a diwylliant ein gwlad, yn ogystal â chyfrannu at gyfrifoldeb byd-eang ein cenedl ac at godi proffil Cymru yn rhyngwladol.** Mae ein buddsoddiad yn y sector yn golygu bod modd creu profiadau, perthnasau a gweithgareddau sy'n pontio'r lleol a'r byd-eang.

Yn borth creadigol rhwng celfyddydau Cymru a'r byd, mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn felin-drafod-weithredol i Gyngor y Celfyddydau, Llywodraeth Cymru a'r celfyddydau yng Nghymru. Mae'n rhoi arbenigedd ac arweinyddiaeth broffesiynol sy'n helpu Cyngor Celfyddydau Cymru drwyddo draw i ymchwilio, profi a chyflawni ein hamcanion rhyngwladol.

Mae gweithgareddau rhyngwladol Cyngor Celfyddydau Cymru yn pontio holl waith y sefydliad ac i'r holl fuddsoddiadau a wnawn. Mae'r rhain yn aml (ond nid yn llwyr) yn cael eu datblygu, eu cefnogi ac / neu eu cydlynu gan ein hasiantaeth fewnol, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru (CRhC).

Mae tîm bychan o staff craidd CRhC yn gweithio gydag unigolion o bob rhan o bortffolio y Cyngor, yn ogystal ag â swyddogion Llywodraeth Cymru, Cynghorau'r Celfyddydau yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig, y British Council a phartneriaid rhyngwladol ledled y byd. Byddwn ni'n gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu uchelgais benodol ac i wireddu potensial rhyngwladol torfol y sector rydyn ni'n ei ariannu a'i gefnogi, ynghyd â photensial y sefydliadau sy'n rhannu cyfrifoldebau â ni.

Diben CRhC yw

- sicrhau bod artistiaid o Gymru yn ymgysylltu yn rhyngwladol;
- helpu i ddatblygu a chyfoethogi ymarfer, gyrfaoedd ac uchelgeisiau artistig;
- datblygu cyfleoedd byd-eang newydd i gelfyddydau a diwylliant Cymru;
- buddsoddi mewn cydweithio artistig sy'n ysbrydoli ac yn cysylltu pobl yng nghymunedau amrywiol Cymru.

Yn ogystal â chefnogi amcanion corfforaethol y Cyngor ac uchelgeisiau rhyngwladol y sector celfyddydau (a

gyflwynir yn y Strategaeth Ryngwladol ac yn y cynllun corfforaethol), **mae gan CRhC gytundeb partneriaeth strategol (2020-23) ag adran Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn** nhîm y Prif Weinidog. Drwy'r cytundeb hwn mae CRhC yn datblygu prosiectau a pherthnasau rhyngwladol sy'n helpu i wireddu Strategaeth Ryngwladol a chynlluniau gweithredu Llywodraeth Cymru.

Mae'r cytundeb yn cyflwyno'r canlynol:

- Rhaglen ar y cyd o waith mewn marchnadoedd allweddol;
- Ymgyrchoedd cyfathrebu byd-eang;
- Trefniadau cyllido;
- Datblygu'r fethodoleg ar gyfer gwerthuso gwaith rhyngwladol o dan saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, i sicrhau bod y cytundeb yn arwain at fanteision pendant.

Mae CRhC yn gweithio gyda nifer o dimau yn Llywodraeth Cymru gan gynnwys y swyddfeydd sydd ganddi mewn gwahanol wledydd. Mae ein pwyslais daearyddol ar hyn o bryd ar Ganada, Ffrainc, yr Almaen, Iwerddon, India a Japan.

Rydyn ni hefyd yn datblygu partneriaethau strategol â sefydliadau ac asiantaethau rhyngwladol, gan gynnwys swyddfeydd y llywodraeth dramor a llysgenadaethau yn y Deyrnas Unedig, yn ogystal â gweithio gyda rhwydweithiau rhyngwladol i ddatblygu rhaglenni sydd o werth a budd i bob ochr.

**Rhai o uchafbwyntiau ein rhaglen ryngwladol yn 2021:**

Yn 2021, bwriodd CRhC ati i **feddwl o'r newydd am ein gwaith rhyngwladol** yng nghyd-destun pedair her fyd-eang aruthrol sy'n cael eu teimlo yn lleol yng Nghymru – pandemig Covid; yr argyfwng hinsawdd; cyfiawnder cymdeithasol ac anghydraddoldeb; a chreu cysylltiadau rhyngwladol newydd ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Gwnaethom gomisiynu gwaith i ddatblygu model rhesymeg (logic model) i lywio ein proses o wneud penderfyniadau, ynghyd â **fframwaith gwerthuso newydd i fesur ein rhaglen ryngwladol a'n buddsoddiadau o dan saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.**

**Cefnogwn y broses o greu ac o weithredu Maniffesto "Dewch â'n Hawliau Creadigol" Celfyddydau Anabledd Cymru ac adroddiad Watch Africa Cymru,** "Nid yw Moroedd Mwyn yn creu Morwyr Medrus", ynghyd â phrosiect dilynol, "Trysor yw Iaith", i ddathlu ieithoedd amrywiol Cymru.

### Ymgyrch gyfathrebu fyd-eang

Ar ôl ei lansio fel rhan o Ddydd Gŵyl Dewi yn ystod y cyfnod clo yn 2021, mae ein hymgyrch fyd-eang, **#PethauBychain** #**SmallThings** yn dangos sut y gall **gwneud pethau bychain wneud gwahaniaeth i'n cymunedau, i'n planed, i'n lles ni'n hunain, ac i genedlaethau'r dyfodol.** Mae'n cynnwys pob math o gynnwys creadigol sydd ar gael i'w wylio yn fyd-eang drwy ein cyfryngau cymdeithasol. Mae ein sianel ar AM Cymru – https://www.amam.cymru/waicymruwales – wedi'i chreu a'i churadu gan artistiaid unigol a chwmnïau yng Nghymru sy'n ymateb yn eu ffyrdd eu hunain i 7 Nod Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Aethon ni ati i ailddechrau ymgyrch #PethauBychain ym mis Tachwedd 2021, gan rannu negeseuon y 7 Nod Llesiant drwy'r celfyddydau bob wythnos.

### Gwreiddio'r celfyddydau a diwylliant ym Mrand Cymru

Yn ei strategaeth ryngwladol, mae Llywodraeth Cymru yn targedu Cymry ar wasgar "i gyflawni ein blaenoriaethau a ***chael ein cydnabod yn rhyngwladol fel cenedl sydd wedi ymrwymo i greadigrwydd, cynaliadwyedd a thechnoleg."*** Mae targed y Llywodraeth, sef "**ymgysylltu â 500,000 o Gymry alltud, cyn-fyfyrwyr a chyfeillion Cymru ledled y byd**, gan ddefnyddio'r doreth o wybodaeth sydd ganddyn nhw a'u cysylltiadau i godi proffil Cymru ar lefel fyd-eang", yn faes newydd i'r celfyddydau roi pwyslais arno.

Mae COVID-19 wedi newid cyd-destun y Strategaeth Ryngwladol, a thra bo'r gweithgareddau arferol i godi proffil wedi'u rhoi o'r neilltu am y tro, mae cyfle i greu pont rhwng y dull sy'n canolbwyntio ar y Cymry ar wasgar a'r **diwylliant lles sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer brand Cymru,** gan ddatblygu cynnwys digidol i gyd-fynd â'r brand.

Yn ei strategaeth ryngwladol, mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, asiantaeth ryngwladol Cyngor Celfyddydau Cymru, yn ymrwymo i ganfod cyfleoedd a fydd yn galluogi'r celfyddydau, diwylliant a'r diwydiannau creadigol i gyfrannu at uchelgeisiau rhyngwladol Llywodraeth Cymru ac uchelgais dinasyddiaeth fyd-eang Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac i elwa o hynny. **"Bydd gosod y celfyddydau wrth wraidd strategaeth a brandio rhyngwladol Llywodraeth Cymru** yn helpu i gyflwyno hunaniaeth ddiwylliannol unigryw Cymru a'i phersonoliaeth fyd-eang mewn byd ar ôl Brexit (a CV19)"**.**

## Ymgysylltu a gweithgareddau yn y farchnad ryngwladol

**Blwyddyn Cymru yn yr Almaen:**

Er bod COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol arni, mae'r flwyddyn wedi cynnwys seminarau a chyfnewidfeydd ar-lein; ymweliad gan gynrychiolwyr o Amgueddfa Cymru; arolwg yn mapio artistiaid sy'n gweithio yn yr Almaen; a chyllid a ddarparwyd drwy ein Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol. Ymhlith yr artistiaid a gefnogwyd mae saith o artistiaid gweledol o'r gogledd, a gafodd sylw fel rhan o arddangosfa dros dro CARN (Rhwydwaith Artistiaid Rhanbarthol Caernarfon) yng ngŵyl 48 awr Neukölln, Berlin. Mae cydweithio ym meysydd y celfyddydau ac iechyd rhwng Kelly Lee Owens, sydd wedi ennill y Wobr Gerddoriaeth Gymreig, a Lindred, yr artist o Berlin, wedi'i ohirio tan 2022 wrth i deithiau gael eu canslo. Drwy rownd ddiweddaraf ein Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol ar ddiwedd 2021, cefnogwyd rhai prosiectau sy'n cysylltu artistiaid yng Nghymru a'r Almaen, a bydd llawer o'r rhain yn cael eu cynnal yn 2022. Rydyn ni hefyd yn gobeithio y bydd rownd arall o'r **rhaglen Pont Ddiwylliannol** yn cael ei chynnal yn 2022.

**Iwerddon:**

Ar ôl cynnal gweithgareddau yn Iwerddon i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi 2020, rydyn ni wedi parhau i gefnogi cysylltiadau rhwng artistiaid yng Nghymru ac Iwerddon. O dan y Datganiad o Fwriad ar y cyd, a lofnodwyd gan lywodraethau Cymru ac Iwerddon ym mis Mawrth 2021, rydyn ni wedi dechrau gweithio gyda'n cymheiriaid yng Nghyngor Celfyddydau Iwerddon tuag at lunio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, ac wedi edrych ar feysydd cyffredin ar gyfer gweithgareddau'r dyfodol. Fel y dangosodd y digwyddiad yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru, mae datblygu llwybrau teithio cynaliadwy yn rhan o'r sgwrs honno. Drwy ein Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol, rhoddwyd cefnogaeth i Theatr Dirty Protest a Fishamble a fu'n edrych ar gyfleoedd i gydweithio'n greadigol ar-lein.

**Japan:**

Gyda buddsoddiad gan Bunkacho (Asiantaeth Ddiwylliannol Llywodraeth Japan), cynhaliodd Wales' Aloud (Only Men Aloud) weithdai i gorau ysgol yn Oita, Kitakyushu a Kumamoto ac arweiniodd hynny at berfformiadau a ffilmiwyd yn Japan ym mis Ebrill 2021. Mae hyn wedi bod yn rhan o waddol y rhaglen ddiwylliannol a ddatblygwyd gan CRhC i gyd-fynd â Chwpan Rygbi'r Byd yn 2019, ac mae'n fodd o ddyfnhau'r gweithgarwch diwylliannol rhwng y ddwy wlad yn y dyfodol.

**Uwchgynhadledd Cerddoriaeth Frodorol Ryngwladol:**

Gyda mawr aros am lansiad *Mawr y Rhai Bychain* – sef yr ŵyl cerddoriaeth frodorol ryngwladol gyntaf yng Nghymru, a honno wedi'i datblygu gan Neuadd Ogwen ym Methesda – ac wrth i ni baratoi at flwyddyn o gydweithio rhwng Cymru a Chanada yn 2022, rhoddodd CRhC gefnogaeth i Neuadd Ogwen a'r cerddor adnabyddus Lisa Jên i fod yn bresennol yn yr uwchgynhadledd hybrid.

**WOMEX 2021:**

Cafodd Cymru ei chynrychioli yn WOMEX 2021 gan Celfyddydau Rhyngwladol Cymru fel rhan o bartneriaeth Gorwelion, gan gynnal digwyddiadau rhwydweithio a chymryd rhan mewn sgyrsiau panel am symudedd artistiaid gydag On the Move, y rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer symudedd artistiaid.

**Focus Cymru Wrecsam:**

Ar ôl ei ganslo ddwywaith, dychwelodd y digwyddiad hwn yn llawn egni ym mis Hydref 2021, gan groesawu cynrychiolwyr o bob cwr o'r byd. Roedd pwyslais penodol ar Ganada a Quebec. Roedd y rhaglen arddangos yn cynnwys rhywfaint o gerddoriaeth MOBO gyffrous o Gymru gan gynnwys artistiaid fel Mace the Great sydd wedi cael gwahoddiad i arddangosfeydd mewn sawl digwyddiad rhyngwladol ar sail eu perfformiad yn Focus Cymru. Mae partneriaeth CRhC â Focus Cymru wedi galluogi llawer o ddigwyddiadau a chydweithio digidol yn ystod y cyfnodau clo, gan gynnwys perfformiadau i'r diwydiant cerddoriaeth a'r cyhoedd a digwyddiadau panel rhwng Cymru a Chanada.

**Partneriaeth Ryngwladol rhwng Cynghorau'r Celfyddydau ym Mhedair Cenedl y DU**

**Gwybodfan Celf y DU:**

**Cynllun peilot yw hwn i gefnogi'r sector celfyddydau gyda gwybodaeth am faterion ymarferol sy'n ymwneud â symudedd artistiaid. Mae'n cael ei ariannu ar y cyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Arts Council of England ac Artis Council of Northern Ireland,** a'i ddarparu gan Celfyddydau Rhyngwladol Cymru mewn partneriaeth â Creative Scotland, Arts Council of Northern Ireland, a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae tîm y Wybodfan wedi cynnal rhaglen o weithdai yn ystod y flwyddyn i gefnogi artistiaid o Gymru a'r Deyrnas Unedig i oresgyn rhwystrau i weithio yn rhyngwladol ers gadael yr Undeb Ewropeaidd ac ers dechrau pandemig Covid, ac i gynghori ac annog artistiaid rhyngwladol i weithio yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

**Cronfa Gydweithio Ryngwladol y 4 Cenedl:**

Mewn partneriaeth ag Arts Council England, Arts Council Northern Ireland a Creative Scotland, mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru wedi bod yn weithgar yn cefnogi'r broses o ddatblygu cronfa gydweithio ryngwladol newydd, er mwyn galluogi artistiaid i gydweithio â phartneriaid ym mhedair cenedl y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Cafodd y rhestr lawn o brosiectau sy'n cael cyllid yn cael ei chyhoeddi ganol mis Ionawr 2022.

Mae **Partneriaeth y Bont Ddiwylliannol gyda Chronfa Fonds Soziokultur yr Almaen, y Goethe Institut yn Llundain a'r British Council** yn brosiect arall sy'n rhan o gydweithio rhwng y pedair cenedl. Mae Valleys Kids a'r parter o'r Almaen, Ysgol Emanuel Geibel a Phrifysgol Gerddoriaeth Lübeck, yn un o brosiectau cydweithio'r gronfa beilot newydd sy'n annog cydweithio cymdeithasol rhwng Cymru a'r Almaen.

### Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yr Argyfwng Hinsawdd a Chyfiawnder Hinsawdd

Mae **partneriaeth newydd rhwng CRhC a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol** yn cefnogi swydd Bardd Preswyl Cenedlaethau'r Dyfodol. Cefnogwyd digwyddiad Parth Gwyrdd COP26 Cymru hefyd, lle crëwyd cadair wag i Genedlaethau'r Dyfodol gan yr Eisteddfod Genedlaethol a'r ffilm Blot-deuwedd gan Ynys Blastig. Bu CRhC yn bresennol a chyfrannodd at raglen ehangach COP, gan ymwneud â nifer o brif feddylwyr y byd am rym a chyfrifoldebau'r celfyddydau yng nghyd-destun yr argyfwng hinsawdd a chyfiawnder hinsawdd; rhannwyd y sgyrsiau hyn â'r sector yn ôl yng Nghymru drwy drafodaethau ar-lein, fel y rheini a gynhaliwyd yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru.

Cynhaliodd CRhC **drafodaeth fel rhan o Wythnos Hinsawdd Cymru** gyda gwesteion rhyngwladol ar thema teithio rhyngwladol a'r argyfwng hinsawdd, ac mae honno i'w gweld ar ôl 1:04:20 fan hyn. Rydyn ni hefyd wedi cyfrannu cymaint ag y bo modd at rwydweithiau rhyngwladol fel On The Move ac IETM i drafod yr argyfwng hinsawdd, cyfiawnder hinsawdd a dad-drefedigaethu.

Rydyn ni hefyd wedi cefnogi'r **bartneriaeth newydd rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru**, gan gynnwys lansio Cymrodoriaethau'r Dyfodol yn 2022.

### Cyllid ar gyfer gweithgarwch rhyngwladol sy'n cael ei arwain gan artistiaid

**Y Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol:**

Ailagorodd CRhC ein cronfa hirhoedlog ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan artistiaid, gyda'r rhan fwyaf o'r 41 o'r prosiectau ar y cyd rhwng artistiaid, y gwaith ymchwil a datblygu a'r rhwydweithio yn digwydd yn ddigidol yn sgil y cyfyngiadau teithio. Dangosodd y gweithgareddau mor amrywiol yw'r gwledydd sydd â chysylltiadau â Chymru, o Frasil i Ethiopia, o'r Almaen i Indonesia.

**Y Gronfa Arddangos Rhyngwladol**

Mae CRhC yn bartner â sefydliad PRS a phartneriaid eraill yn y Deyrnas Unedig er mwyn ariannu cerddorion sy'n cael gwahoddiad i arddangos mewn digwyddiadau rhyngwladol. Er bod llawer o'r arddangosfeydd wedi'u gohirio neu'n cael eu cyflwyno'n ddigidol, rydyn ni'n gobeithio yn 2022 y byddwn ni'n cyflwyno mwy o ddigwyddiadau byw fel SXSW, ShowcaseScotland, New SkoolRules a Classical Next.

## Pethau i gadw golwg arnyn nhw a'u cefnogi yn 2022:

**Showcase Scotland a Celtic Connections:**

Rhwng **2 a 4 Chwefror 2022, Cymru fydd y partner rhyngwladol a fydd yn cael sylw yn Showcase Scotland**, arddangosfa a digwyddiad rhyngwladol blynyddol i'r diwydiant cerddoriaeth sy'n rhoi llwyfan i dalent o'r Alban ynghyd â phartner rhyngwladol. Mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal bob blwyddyn yn ystod gŵyl Celtic Connections yn Glasgow.

Oherwydd cyfyngiadau presennol COVID-19, mae rhaglen 5 niwrnod Showcase Scotland wedi'i chwtogi, a bydd digwyddiad digidol ar-lein yn cael ei gynnal dros dridiau yn lle hynny. Mae disgwyl bwrw ymlaen â Celtic Connections ei hun ar ffurf digwyddiad hybrid, gyda rhaglen wedi'i chwtogi o sioeau byw a chyflwyniadau digidol i gyd-fynd.

Elfen amlycaf y rhaglen ddigidol fydd derbyniad ar-lein **Spotlight Cymru Wales yn Showcase Scotland rhwng 15:00 a 16:00 ddydd Gwener 4 Chwefror i gyd-fynd â Dydd Miwsig Cymru**, sef dathliad blynyddol o gerddoriaeth Gymraeg yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Bydd y digwyddiad yn cynnwys **perfformiadau arddangos gan 6 o artistiaid o Gymru (N'famady Kouyaté, Eve Goodman, Pedair, Cynefin, The Trials of Cato a NoGood Boyo)** a hynny gerbron cynrychiolwyr o'r diwydiant cerddoriaeth byd-eang, gan arwain at ddatblygu'u gyrfaoedd a mwy o gyfleoedd i deithio.

Dyma gyfle gwerth chweil i gyflwyno Cymru gyfoes amrywiol, gynhwysol a beiddgar, i herio'r argraffiadau rhyngwladol o natur cerddoriaeth 'Gymreig', ac i greu gofod i'r gerddoriaeth honno o dan fantell ehangach cerddoriaeth 'Geltaidd' (cerddoriaeth sy'n cael ei chysylltu gan y gynulleidfa ryngwladol fel rheol â cherddoriaeth draddodiadol Iwerddon a'r Alban).

Roedd disgwyl i ddirprwyaeth o wyliau rhyngwladol ymweld â'r gogledd yn syth ar ôl Showcase Scotland ar gyfer lansiad Mawr y Rhai Bychain, yr ŵyl cerddoriaeth frodorol ryngwladol gyntaf i'w threfnu gan Neuadd Ogwen Bethesda, ond mae'r digwyddiad hwn wedi'i ohirio oherwydd cyfyngiadau presennol COVID-19.

***Gwrando - Listening*** **ar ddechrau Degawd Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig:**

I nodi'r flwyddyn gyntaf, bydd CRhC yn cynnal **Gwrando | Listening – rhaglen o weithgareddau i wrando ar ieithoedd y byd sydd mewn perygl,** ac yn enwedig y rheini y mae'r argyfwng hinsawdd yn effeithio arnyn nhw.

**Cymru yng Nghanada a Canada Goes Cymru:**

Dau dymor unigryw ond sy'n perthyn i'w gilydd a'r rheini'n ceisio codi proffil y ddwy genedl yn y wlad arall, gan greu perthnasau newydd a meithrin y cysylltiadau sy'n bodoli'n barod a gofyn cwestiynau ar y cyd am y dyfodol. **Llywodraeth Cymru fydd yn arwain Cymru yng Nghanada, ac Uwch Gomisiwn Canada yn y Deyrnas Unedig fydd yn arwain Canada Goes Cymru.** Bydd CRhC yn bartner strategol a fydd yn creu cysylltiadau ar gyfer gweithgareddau ym maes y celfyddydau a diwylliant.

**Paratoi at Flwyddyn Cymru yn Ffrainc 2023**

Wrth inni edrych ymlaen at flwyddyn **Cymru yn Ffrainc 2023, byddwn ni'n ceisio datblygu a chryfhau ein cysylltiadau â Llydaw yn enwedig,** mewn partneriaeth â Spectacle Vivant en Bretagne. Rydyn ni hefyd yn datblygu rhaglen beilot ar gyfer y celfyddydau gweledol gyda'n chwaer-asiantaethau yn y 4 cenedl. A byddwn ni'n parhau i gefnogi artistiaid a chwmnïau o Gymru i weithio ar brosiectau cydweithio drwy ein Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol.

**Parhau â'n partneriaeth ag Iwerddon:**

Yn 2022 byddwn ni'n ceisio cytuno ar ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Chyngor Celfyddydau Iwerddon; comisiynu adroddiad i fapio'r cysylltiadau artistig rhwng Cymru a'r Alban; a gweithio ar weithgareddau sy'n edrych yn benodol ar deithio cynaliadwy ac ar gryfhau ein cysylltiadau â'n cymydog agosaf o'r Undeb Ewropeaidd yn y byd ar ôl Brexit.

**Adolygu ein Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol** i sicrhau ei bod yn cefnogi datblygiad cysylltiadau rhyngwladol rhwng amrywiaeth ehangach o artistiaid o Gymru, a'i bod yn ymateb i sgyrsiau byd-eang am gyfiawnder hinsawdd, yr argyfwng hinsawdd a chydweithio teg.

Bydd **Dydd Gŵyl Dewi 2022** yn datblygu ar yr ymgyrch #PethauBychain gyda mwy fyth o gynnwys creadigol (a gobeithio rhai digwyddiadau byw, os bydd Covid yn caniatáu hynny!)

**Trosolwg o ymgysylltiad a blaenoriaethau rhyngwladol Urdd Gobaith Cymru mewn ymateb i'r ymchwiliad undydd ar gysylltiadau rhyngwladol gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.**

Urdd Gobaith Cymru yw mudiad Ieuenctid Cenedlaethol mwyaf Cymru sy'n darparu cyfleoedd Chwaraeon, Diwylliannol, Dyngarol, rhyngwladol a phreswyl i blant a phobl ifanc sy'n eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymuned.

Wedi'i sefydlu yn 1922, mae'r Urdd wedi meithrin cenedlaethau o bobl ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i eraill ac yn ymgorfforiadau byw o'n hiaith a'n diwylliant, ynghyd â'r gwerthoedd cyffredinol yr ydym yn eu parchu yng Nghymru.

Mae ein nod fel mudiad yn sefyll yr un fath ag yr oedd yn 1922 sef i greu pobl ifanc sy'n ymwybodol yn fyd-eang, yn falch o'u hiaith a'u treftadaeth ac yn agored i'r byd.

Mae ein prosiectau rhyngwladol mewn partneriaeth a sefydliadau eraill yn ymhelaethu ar stori Cymru fel cenedl lwyddiannus, hyderus, bywiog ac agored ac yn rhoi cyfleoedd trawsnewidiol i'n haelodau i sicrhau eu bod yn llawn hunanhyder.

Dros y 3 blynedd diwethaf mae'r Urdd wedi gweithio ar brosiectau rhyngwladol i'n haelodau yn Kenya, Alabama, Patagonia, Hwngari, Brwsel, Awstralia, a Japan ac yn fyd-eang drwy y neges heddwch flynyddol.

**Ein huchelgais rhyngwladol â Gwaith Rhyngwladol Llywodraeth Cymru**

Ar hyn o bryd rydym yn derbyn arian cyfatebol gan adran Ryngwladol Llywodraeth Cymru (£100,000 yn ystod 2021-2022) i ddatblygu a chydlynu ein prosiectau rhyngwladol.

Mae'r rhaglenni'n cefnogi uchelgais ryngwladol llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

- Mae'r Urdd yn gyswllt rhwng diwylliant a chwaraeon drwy weithio gyda'n partneriaid i chwyddo llais Cymru dramor.
- Rydym yn codi proffil Cymru drwy ddefnyddio ein profiad o hyrwyddo'r Gymraeg i gydweithio â gwledydd eraill.
- Drwy'r neges Heddwch ac Ewyllys Da rydym yn tynnu sylw at enw da Cymru fel Cenedl Noddfa, wedi ymrwymo i hawliau dynol a hyrwyddo heddwch.
- Mae ein cenhadaeth fel sefydliad yw grymuso pobl ifanc i fod yn falch o'u hiaith a'u treftadaeth ond yn agored i'r byd. Trwy hyrwyddo dinasyddiaeth byd-eang, byddwn yn sicrhau bod pobl ifanc Cymru yn byw ar gyfer y gwerthoedd hyn.
- Rydym yn rhannu ein llwyddiant â gwledydd a sefydliadau eraill yn y byd wrth hyrwyddo iaith leiafrifol yn llwyddiannus.

Ynghyd a hyn mae ein gwaith rhyngwladol yn cefnogi ac yn cyflawni yn erbyn canlynol.

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cwricwlwm i Gymru 2022
- Cymraeg2050
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

**Gwaith Rhyngwladol yr Urdd**

Gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill sy'n gweithio'n rhyngwladol fel Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Undeb Rygbi Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a'r Cyngor Prydeinig, gallwn greu prosiectau ystyrlon a llwyddiannus er budd pobl ifanc.

Mae ein gwaith rhyngwladol wedi'i ymgorffori ym mhob adran o'r Urdd drwy raglenni cyfnewid diwylliannol gyda'r Eisteddfod a'r celfyddydau i elfennau rhyngwladol o fewn ein cystadlaethau chwaraeon a phartneriaeth â Tim Cymru Gemau'r Gymanwlad.

Yn greiddiol i waith rhyngwladol yr Urdd mae'r Neges Heddwch ac Ewyllys Da gan pobl ifanc Cymru i bobl ifanc y byd.

Wrth i ni ddechrau ar ein canmlwyddiant, bydd nifer o brosiectau rhyngwladol y gwnaethom eu haddasu'n llwyddiannus i brosiectau digidol oherwydd Covid, yn cael eu cyflwyno eleni, gyda taith cyfnewid i Alabama wedi'u chynllunio a phrosiectau gyda TG Lurgan yn Iwerddon yn barod wedi cadarnhau.

Ceir uchafbwyntiau allweddol ein gwaith rhyngwladol presennol yn Adran A

**<u>Ein blaenoriaethau ar gyfer y 3 blynedd nesaf</u>**

**Cael mynediad i raglen Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol Llywodraeth Cymru (ILEP)** i gynyddu'r cyfleoedd rhyngwladol i fwy o bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig. Hoffem ganmol Llywodraeth Cymru am sefydlu'r rhaglen £65 miliwn, yn dilyn eithrio Cymru o raglen Erasmus+ oherwydd Brexit. Mae treulio amser ar raglenni rhyngwladol dramor yn ehangu gorwelion, yn ehangu sgiliau allweddol, ac yn dod â manteision i gymunedau a sefydliadau yma yng Nghymru.

**Datblygu cymuned o arfer da rhyngwladol ym maes hybu iaith**. Cynyddu partneriaethau rhyngwladol yr Urdd, a rhannu ein dysgu a'n llwyddiant gyda hyrwyddo'r Gymraeg gyda gwledydd a sefydliadau eraill sy'n datblygu strategaethau ac ymarfer wrth hyrwyddo'r defnydd o iaith leiafrifol

**Parhau i rannu a datblygu'r Neges Heddwch ac Ewyllys Da gan bobl ifanc Cymru i'r byd.** Mae'r neges yn uno plant a phobl ifanc i leihau rhagfarn ac anwybodaeth gan bwysleisio'r hyn sy'n gyffredin i holl bobl ifanc y byd. Fel elfen graidd o'n gwaith rhyngwladol, mae ei werth addysgol yn bellgyrhaeddol, gan ysbrydoli gweithredu dyngarol a galluogwr, gan ymhelaethu ar lais cenedlaethau'r dyfodol i rannu eu pryderon i'r rhai mewn awdurdod.

**Parhau i ddatblygu partneriaethau yng Nghymru a ledled y byd** i ddarparu cyfleoedd rhyngwladol newydd ac amrywiol i bobl ifanc.

**<u>Blaenoriaethau ar gyfer gwaith y Pwyllgor ar gysylltiadau rhyngwladol yn ystod y Chweched Senedd;</u>**

Gofynnwn i'r pwyllgor ystyried y pwyntiau canlynol:

- Manteisio i'r eithaf ar y Rhaglenni Dysgu Rhyngwladol i fwy o bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig derbyn budd o brofiadau rhyngwladol.
- Ymgorffori iaith a diwylliant Cymru ym mhob agwedd o waith rhyngwladol, ac i rymuso pobl ifanc i fod yn falch o'u hiaith a'u treftadaeth ond yn agored i'r byd, a hyrwyddo Cymru i'r byd
- Harneisio ac grymuso pobl ifanc fel llysgenhadon rhyngwladol sy'n weithgar ar brosiectau dyngarol rhyngwladol a ddangosodd bwysigrwydd Cymru fel Gwlad Noddfa

## Adran A – Uchafbwyntiau allweddol ein gwaith rhyngwladol presennol

### Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd i'r byd.

Un o brif brosiectau rhyngwladol yr Urdd yw neges heddwch ac ewyllys da flynyddol.

Trwy'r Urdd, mae pobl ifanc Cymru wedi anfon neges blynyddol I'r byd. Wedi'i rannu gyntaf yn 1922, mae'r neges yn unigryw ac yn gyntaf yn fyd-eang. Dyma'r unig neges o'i fath sydd wedi'i hanfon gan bobl ifanc i'r byd yn barhaus bob blwyddyn heb fethu.

Mae wedi'i hadeiladu pontydd, ffiniau wedi'u croesi, a rhoi grym i genedlaethau ifanc i fod yn gyson,-hyderus ac yn lysgenhadon penderfynol o ddyheadau dynolryw.

Neges 2021 oedd y mwyaf llwyddiannus hyd yma. Cyrhaeddodd dros 84 miliwn o bobl ledled y byd, a gyfieithwyd i 65 o ieithoedd, a chyrhaeddodd 59 o wledydd. Rhannodd unigolion a sefydliadau nodedig y neges ar draws y byd i gynnwys Hilary Clinton, UN Women, y Tywysog Charles, Michael Sheen a Geraint Thomas ochr yn ochr â channoedd o filoedd o unigolion, sefydliadau a chefnogwyr ym mhob cyfandir.

Mae'r cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru wedi ein galluogi i ehangu ar gyrhaeddiad y neges yn ystod y blynyddoedd diwethaf a byddem am i hyn barhau wrth i ni archwilio themâu a chyfleoedd i bobl ifanc yn y dyfodol.

[Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd 2021 // Urdd Peace and Goodwill Message 2021 - YouTube]

**Yr Urdd / TG Lurgan –**

Ym mis Mawrth 2020, ffurfiodd yr Urdd bartneriaeth gyda Sefydliad Ieuenctid Iwerddon TG Lurgan. Mae TG Lurgan yw hyrwyddo yr Iaith wyddeleg drwy ganeuon cyfoes gyda'i sianel YouTube yn denu miliynau o wylwyr ac maent yn arweinwyr wrth hyrwyddo iaith leiafrifol ar y cyfryngau cymdeithasol.

Nod y bartneriaeth yw dod â phobl ifanc o Gymru ac Iwerddon at ei gilydd i gydweithio ar gynghyrchiadau dwyieithog cyffrous a deinamig gydag apêl fyd-eang gan dysgu a rhannu arfer da ar lwyddiant hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol ymhlith pobl ifanc.

Oherwydd covid a chyfyngiadau teithio nid yw ymweliadau ag Iwerddon ac yn ôl i Gymru wedi bod yn bosibl, ond mae'r ddau sefydliad wedi llwyddo i weithio'n ddigidol ar gydweithio llwyddiannus iawn o bell.

Mae'r ddau gydweithrediad fideo wedi bod yn llwyddiant ysgubol o ran cyrhaeddiad ar draws dros 600,000 o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol, cynnwys mewn 13 o wahanol wledydd ac ymateb eang yn y cyfryngau i gynnwys The Independent, The Sun a Joe.ie.

Mae'r bartneriaeth yn parhau i dyfu gyda rhaglenni cyfnewid arfaethedig i Connemara a dychwelyd i Gymru yn 2022. Rydym yn awyddus i archwilio a thyfu'r bartneriaeth hon (a gafodd gyllid gan Lywodraeth Cymru yn ei blwyddyn lansio) i'n galluogi i barhau i weithio gyda'n gilydd i hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol yn llwyddiannus ymhlith pobl ifanc.

[Urdd Gobaith Cymru x TG Lurgan – Blinding Lights yn Gymraeg/as Gaeilge - YouTube]

**Yr Urdd a Phrifysgol Birmingham Alabama -**

Ffurfiwyd cysylltiadau Cymreig â'r gymuned Affricanaidd yn America yn Birmingham, Alabama yn syth ar ôl bomio dieflig ar Eglwys y Bedyddwyr 16th St yn 1963 gan y Klu Klux Klan gan I pobl Cymru godi arian I rhoi ffenestr gwydr lliw i'r eglwys mewn fel arwydd o gefnogaeth.

Dros hanner canrif yn ddiweddarach mae'r Urdd yn enw y Neges Heddwch wedi creu partneriaeth rhwng Alabama a phobl ifanc Cymru.

Mae Côr yr Urdd (Côr yr Urdd) yn gôr newydd o aelodau'r Urdd a fydd yn teithio i Birmingham, Alabama yn Pasg 2022. Bydd y côr yn rhoi cyfle arbennig i bobl ifanc (18 i 25 oed) o Gymru berfformio yn Alabama ochr yn ochr â Chôr Gospel UAB gyda'r nod o ddysgu mwy am y traddodiad gospel ac hawliau sifil.

Yn dilyn ymweliad Côr yr Urdd ag Alabama, bydd Côr Gospel UAB wedyn yn teithio i Gymru ym mis Mehefin 2022 gan aros yn nhri chanolfan breswyl yr Urdd, gan deithio'r wlad, perfformio mewn lleoliadau amrywiol. Bydd eu hymweliad yn gorffen yn Eisteddfod yr Urdd yn Sir Ddinbych.

https://www.youtube.com/watch?v=Zz3q35e7h1E

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DB/649/22

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

18 Ionawr 2022

Annwyl Delyth,

**Ymateb i Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol i adroddiad *Ymateb i Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr***

Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas ag Adroddiad y Pwyllgor Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - *Ymateb i Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*.

Nid oes amheuaeth ynghylch perthnasedd parhaus darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Mae ein darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn chwarae rhan hanfodol yn llywio, diddanu, addysgu a chreu dinasyddiaeth ddiwylliannol gyffredin, rôl sy'n arbennig o bwysig yn ystod pandemig COVID-19. Maent yn gyfranwyr hanfodol i dwf ein heconomi a'n diwydiannau creadigol, yn ogystal â datganoli a chynnal a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Maent yn allweddol i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer diwydiant amrywiol a chynhwysol, gan gynhyrchu cynnwys hygyrch a pherthnasol. Felly, mae'n hanfodol bod camau brys yn cael eu cymryd i ddatblygu fframwaith addas i'r diben i sicrhau bod darlledwyr yn gallu parhau i gyflawni dros bobl Cymru.

Mae ein sgyrsiau ein hunain gyda rhanddeiliaid yn adlewyrchu barn y cyfranogwyr i'ch ymholiad undydd i'r heriau sy'n wynebu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae angen gweithredu ar frys i fwrw ymlaen â'r argymhellion a nodir yn y *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*, a bod yn rhaid cael cynrychiolaeth lawn a theg o Gymru yn y gwaith hwn. Bydd unrhyw oedi cyn cyflwyno model newydd yn cael effaith sylfaenol ar allu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i weithredu'n effeithiol mewn amgylchedd cynyddol fyd-eang, ar-lein. Rhaid i Gymru gael llais cryf wrth ddatblygu unrhyw gynigion os ydym am ddiogelu, cynnal a hyrwyddo buddiannau Cymru. Mae fy swyddogion yn ymgysylltu ag Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU ar y camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth y DU mewn ymateb i *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*. Maent hefyd mewn trafodaethau gydag Ofcom a DCMS ar amrywiaeth o weithgareddau sy'n berthnasol i'r gwaith hwn, megis yr ymgynghoriad ar ddiogelu cynulleidfaoedd ar wasanaethau fideo-ar-alwad a'r Bil Diogelwch Ar-lein arfaethedig.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rhaid i unrhyw fframwaith rheoleiddio yn y dyfodol fynd i'r afael ag effaith gwasanaethau ffrydio byd-eang, a chytunwn y dylai Llywodraeth y DU ymateb yn gadarnhaol i argymhellion Ofcom sy'n ymwneud â llwyfannau ffrydio. Mae'r angen i ehangu a diogelu amlygrwydd a darganfod cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar y llwyfannau hyn wedi'i godi'n gyson gyda ni gan randdeiliaid, ac mae'n faes penodol lle mae'r angen am weithredu cyflym wedi'i bwysleisio. Fel y nodwyd yn adroddiad Ofcom ar y Cyfryngau 2021, mae gan 'fwy na hanner yr aelwydydd yng Nghymru (59%) danysgrifiad i wasanaethau fideo-ar-alw gan gwmnïau fel Netflix, Amazon, Disney+ a Now TV'.  Mae hyn wedi cynyddu o ffigur o 54% o aelwydydd sydd â thanysgrifiad i un neu fwy o'r gwasanaethau ar-lein y telir amdanynt ar ddechrau 2020, fel y nodir yn ei adroddiad yn 2020. Wrth i'r duedd hon barhau, mae angen fframwaith i sicrhau bod gwylwyr yn gallu dod o hyd i gynnwys Cymraeg a'i ddefnyddio'n hawdd mewn marchnad gynyddol fyd-eang. Mae hyn yn cynnwys yr angen am fecanweithiau i sicrhau bod y cynnwys hwn yn cael ei gario ar lwyfannau digidol ar delerau teg. Dylai'r fframwaith hwn gael ei lywio gan ddysgu o wledydd eraill a chytunwn y dylid ystyried enghreifftiau o ddulliau gweithredu mewn mannau eraill wrth ddatblygu atebion, yn enwedig y rhai sydd ag amgylchiadau tebyg i Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cytuno ei bod yn amserol i weithrediadau Ofcom yng Nghymru gael eu hadolygu ar yr adeg dyngedfennol hon i'r sector darlledu. Wrth i ni geisio sicrhau bod y fframwaith polisi a deddfwriaethol yn esblygu yn unol â newidiadau i'r tirlun darlledu, mae angen i ni hefyd sicrhau bod gan Ofcom yng Nghymru ddigon o adnoddau i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag Ofcom i sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion dinasyddion Cymru ac rydym yn ddiolchgar am y berthynas gadarnhaol â swyddogion yng Nghymru ac aelod Bwrdd Ofcom dros Gymru. Fodd bynnag, wrth i gyflymder y newid yn y sector gynyddu ac arwain at yr angen am gapasiti a sgiliau ychwanegol i adlewyrchu cyfleoedd, heriau a ffrydiau gwaith newydd a rhai sy'n datblygu, rhaid i Lywodraeth y DU sicrhau bod adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu ar gyfer hyn.

Roedd ein hymateb i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Senedd blaenorol ar ddarlledu yn cytuno y dylai gwledydd y DU fod â rôl mewn penderfyniadau ariannu pwysig, yng nghyd-destun annibyniaeth darlledu ar lywodraeth. Mae penderfyniadau a wneir ar lefel y DU ar setliadau ariannu yn cael effaith sylfaenol ar ddarparu gwasanaethau yng ngwledydd y DU, a byddem yn croesawu mecanwaith ffurfiol sy'n sicrhau bod y rhain yn cael eu gwneud mewn ymgynghoriad llawn ac effeithiol â rhanddeiliaid allweddol o wahanol rannau o'r DU. Rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gael digon o adnoddau er mwyn darparu cynnwys perthnasol ac amrywiol sy'n gwasanaethu cynulleidfaoedd Cymru.

Nodaf sylwadau'r cyfranogwyr i adolygiad undydd y Pwyllgor, sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd comisiynu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i dwf y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Mae'r datganiadau hyn yn adleisio canfyddiadau adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2021, gan gynnwys asesu effaith economaidd S4C yng Nghymru a'r DU, ac asesu cyfraniad y BBC i economi'r DU. Nid oes amheuaeth bod darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus wedi helpu i ddatblygu'r sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru, gyda'u gwariant yn arwain at gynaliadwyedd nifer o gwmnïau annibynnol hynod lwyddiannus sydd bellach yn creu cynnwys wedi'i sgriptio a heb ei sgriptio ar gyfer llawer o sianeli a rhwydweithiau. Rhaid i'r buddsoddiad hwn barhau os ydym am gynnal a datblygu ein henw da fel canolbwynt creadigol ac ennill ein cyfran deg o'r twf a ragwelir ar gyfer y sector ar lefel y DU dros y blynyddoedd nesaf. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n hanfodol bod amcanion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn adlewyrchu eu gwerth i dirwedd economaidd a diwylliannol Cymru, ac yn manteisio i'r eithaf ar eu potensial i gefnogi twf y diwydiannau creadigol yng Nghymru.

I gydnabod pwysigrwydd ein darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i Gymru, yn 2021 ymrwymodd Cymru Greadigol i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r BBC ac S4C i gryfhau ein perthynas a rhoi eglurder ar feysydd o flaenoriaeth a ffocws ar y cyd. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2022 i archwilio'r Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill. Mae ein Memoranda yn nodi ein gweledigaeth gyffredin o sector cynaliadwy, arloesol a gwydn yng Nghymru sy'n ddwyieithog, yn gynrychioliadol, yn deg ac yn gynhwysol. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno cynnwys sy'n adrodd y straeon, yn adlewyrchu bywydau a natur y genedl, yn ogystal â'r iaith a'r diwylliant, mewn ffordd sy'n gymhellol i gynulleidfaoedd brodorol a byd-eang. Hefyd, maent yn ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gefnogi twf y Gymraeg.

Fel y mae eich adroddiad yn tynnu sylw ato, os yw strwythurau darlledu newydd i ddiwallu anghenion Cymru mewn gwirionedd, rhaid i drafodaethau a phenderfyniadau ar eu datblygiad ystyried ein sefyllfa benodol ni. Rhaid iddo adlewyrchu ein diwylliant unigryw, ein hiaith, ein cyd-destun deddfwriaethol a'n dibyniaeth ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus er mwyn darparu gwybodaeth a newyddion er budd y cyhoedd. O ystyried y rôl y bydd Panel Cynghori ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn ei chwarae wrth ddatblygu atebion i'r heriau sy'n wynebu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, mae'n hanfodol bod Cymru'n cael ei chynrychioli ar y grŵp hwnnw. Yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion godi'r mater hwn fel rhan o'u trafodaethau gyda DCMS.

Fel y gwyddoch, darlledu yw un o'r meysydd sy'n dod o dan y Cytundeb Cydweithredu y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddo gyda Phlaid Cymru a bydd ein gwaith yn y maes hwn yn cael ei ddatblygu yng nghyd-destun yr ymrwymiadau hynny. Byddwn yn cynnal trafodaethau gyda'r Aelodau Dynodedig a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd fel y bo'n briodol.

Diolch i'r Pwyllgor am ei waith ar y mater pwysig hwn a'i ymrwymiad parhaus i sicrhau fframwaith darlledu addas i'r diben i Gymru.

Yn gywir,

Dawn Bowden

**Dawn Bowden AS/MS**
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DB/651/22

Delyth Jewell AS/MS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

20 Ionawr 2022

Annwyl Delyth,

Yn fy llythyr i'r Pwyllgor dyddiedig 21 Rhagfyr 2021, ymrwymais i rannu copïau o lythyrau Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth i'r Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru sydd yn fy mhortffolio, wedi iddynt gael eu dosbarthu.

Amgaeaf gopïau o'r llythyrau hyn, a anfonwyd at Lyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, a Chwaraeon Cymru, ar 22 Rhagfyr, 2021.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS/MS**
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**

**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Roger Lewis
Llywydd - Amgueddfa Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NP

22 Rhagfyr 2021

Annwyl Roger,

**Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth ar gyfer Amgueddfa Cymru**

Hoffwn ddiolch i Amgueddfa Cymru am y gwaith pwysig y mae wedi'i wneud wrth ymateb i bandemig Covid-19. Mae'r cyrff a noddir yn fy mhortffolio wedi dangos arweinyddiaeth, hyblygrwydd a gwydnwch yn ystod amgylchiadau heriol. Rhaid inni symud yn awr i sicrhau bod buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn cefnogi adferiad ein sectorau, ein pobl a Chymru gyfan. Mae cyfle i ni geisio'r dysgu cadarnhaol o Covid-19, a chynnal y momentwm a gyflawnwyd ar y mynediad gwell i ddiwylliant drwy ddigido a digwyddiadau digidol.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu blaenoriaethau'r Llywodraeth a'i hymrwymiadau i bobl Cymru. Yn gyfnewid am y cyllid cymorth grant y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu, gofynnaf i Amgueddfa Cymru ystyried sut y gall gyflawni ei hamcanion mewn ffordd sy'n gyson â gwerthoedd Llywodraeth Cymru.

Dylai ein nodau a rennir gynnwys:

- Datgarboneiddio;
- Mynd i'r afael â phob anghydraddoldeb a sicrhau Cymru wrth-hiliol;
- Gwella mynediad a chyfranogiad i bawb;
- Hyrwyddo Iechyd a Llesiant;
- Creu cyfleoedd i bobl ifanc; a
- Chyflwyno delwedd bwerus a chadarnhaol o Gymru i'r byd.

Yn Atodiad A, rwyf wedi amlinellu'r meysydd lle rwy'n teimlo y gall Amgueddfa Cymru gyfrannu at gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu. Mae'r cyd-destun strategol presennol ar gyfer gwaith cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru i'w gweld yn Atodiad B.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn bwysig er mwyn cyflawni ein nodau o ehangu mynediad, cyfranogiad ac ymgysylltu. Yr wyf yn argyhoeddedig y gallai'r cyrff a noddir o fewn fy mhortffolio gyflawni cymaint mwy drwy gydweithio, ac fe'ch anogaf i gydweithio fel arweinwyr diwylliannol i wneud y mwyaf o'ch effaith.

Hoffwn eich atgoffa o'ch dyletswydd gyfreithiol o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. O dan Ran 1, mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i chi gyhoeddi amcanion tlodi plant fel rhan o strategaeth ar gyfer cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru. Hoffwn ichi feddwl am gamau gweithredu sy'n cefnogi lles plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi, a'ch annog i ystyried cyfleoedd i gyflawni eich rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y ddyletswydd o fewn eich prosesau sefydliadol presennol.

Bydd Amgueddfa Cymru yn bartner cyflawni allweddol ar gyfer nifer o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraeth, gan gynnwys Amgueddfa Gogledd Cymru, Amgueddfa Bêl-droed Cymru, a datblygu a sefydlu'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol. Edrychaf ymlaen at gael eich cefnogaeth a'ch arbenigedd gwerthfawr wrth fwrw ymlaen â'r ymrwymiadau hyn.

Dylech barhau i gyflawni cyfrifoldebau statudol Amgueddfa Cymru fel y nodir yn ei Siarter Frenhinol, a bodloni safonau proffesiynol mewn ffordd sy'n dangos bod y sefydliad yn gofalu am ein casgliad cenedlaethol yn effeithiol. Mae'n bwysig eich bod yn cynnal Achrediad Amgueddfeydd, ac yn parhau i weithio tuag at ennill Achrediad Gwasanaeth Archifau. Rwy'n disgwyl i Amgueddfa Cymru weithio i safonau proffesiynol i gynnal a chadw'r cynnwys digidol a gedwir yn y casgliadau drwy seilwaith cadwraeth ddigidol cadarn, fel bod yr wybodaeth yn parhau i fod yn ddibynadwy, yn awdurdodol ac yn ddilys dros amser.

Bydd cynnal sefydlogrwydd ariannol Amgueddfa Cymru yn parhau i fod yn ddisgwyliad sylfaenol.

Gwn fod Amgueddfa Cymru wedi cynnig cefnogaeth ac arweiniad gwerthfawr i'r sector amgueddfeydd lleol yng Nghymru, a hoffwn weld Amgueddfa Cymru yn awr yn mabwysiadu dull cydweithredol o weithio gydag amgueddfeydd lleol. Mae gweithio gyda'r sector lleol, gyda chyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, a chyda phartneriaid allweddol eraill, yn bwysig o ran cyflawni ein nod o ehangu mynediad, cyfranogiad ac ymgysylltu.

Yn unol â'r Ddogfen Fframwaith, sy'n sail i'r berthynas rhwng Amgueddfa Cymru a Llywodraeth Cymru, dylech symud yn awr i adolygu eich cynlluniau busnes, gan ddangos sut y byddwch yn cyflawni yn erbyn y meysydd a amlinellir yn y llythyr hwn a'i atodiadau.

Mae eich statws elusennol a Siarter Frenhinol a'r angen i Amgueddfa Cymru weithredu'n annibynnol o ddydd i ddydd yn glir, a'm bwriad yw y bydd ein perthynas yn parhau i fod yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y cyd, ac ar gyfathrebu agored a gonest.

Ni ddylai Amgueddfa Cymru adlewyrchu'r Gymru gyfoes yn unig ond bod wrth wraidd hynny. Mae llawer i'w wneud, ond yr wyf yn argyhoeddedig y gall fy mhortffolio wneud gwahaniaeth cadarnhaol a pharhaol i fywydau pobl. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyflawni hyn.

Yn gywir,



**Dawn Bowden AS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**
cc David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru

**ATODIAD A: Y Prif Amcanion y bydd angen eu cyflawni**

**Ar gyfer pob un o'r prif gyflawniadau hyn, bydd fy swyddogion yn gweithio gyda chi i benderfynu, a chytuno ar ddangosyddion perfformiad priodol cyn y flwyddyn ariannol 2022-23. Dylid adrodd ar y dangosyddion perfformiad hyn bob chwarter, fel rhan o'r trefniadau monitro rheolaidd, a thrwy gydol y tymor hwn o Lywodraeth.**

## 1. Darparu gofal iechyd effeithiol, o ansawdd uchel a chynaliadwy

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn pwysleisio gwella'r ddarpariaeth iechyd meddwl ac mae'n canolbwyntio ar atal, cefnogi pobl i fyw bywydau iach, mynd i'r afael â stigma ym maes iechyd meddwl, a chyflwyno fframwaith Cymru gyfan i gyflwyno presgripsiynu cymdeithasol fel ffordd o fynd i'r afael ag unigrwydd.

Hoffwn i Amgueddfa Cymru:

- Gweithredu ffyrdd o gefnogi iechyd meddwl da ar draws y sefydliad, gan sicrhau nad oes stigma ynghlwm wrth faterion iechyd meddwl
- Sicrhau bod y gweithlu wedi'i hyfforddi'n briodol i gefnogi'r rhai sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl
- Ymgysylltu â'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith arfaethedig ar gyfer Cymru gyfan ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol, ac, yn benodol, gweithio i nodi meysydd lle gallai'r Amgueddfa gefnogi rhagnodi cymdeithasol i fynd i'r afael ag unigrwydd a chefnogi lles.

## 2. Diogelu, ail-adeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed

Mae ffocws y Rhaglen Lywodraethu yn y maes hwn yn ymwneud â gwasanaethau gofal integredig, gan gefnogi dinasyddion sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n wynebu'r heriau mwyaf. Credaf y dylai ein cyrff a noddir helpu pobl Cymru i fyw bywydau ystyrlon, a dylech ystyried sut y gallwch wella eich cefnogaeth i bobl mewn grwpiau agored i niwed a / neu ddifreintiedig.

Hoffwn i Amgueddfa Cymru:

- Sicrhau y gall yr ystod ehangaf o grwpiau sy'n agored i niwed ymgysylltu â diwylliant ac nad ydynt yn cael eu heithrio rhag cymryd rhan. Dylai hyn gynnwys nodi a darparu cyfleoedd penodol sy'n galluogi pobl mewn grwpiau agored i niwed neu ddifreintiedig a'r rhai mewn cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar ddiwylliant;
- Bod yn rhagweithiol ynghylch sicrhau bod y sefydliad yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fod yn genedl sy'n ystyriol o oedran;
- Ystyried y cyfleoedd rydych chi'n eu cynnig ar hyn o bryd i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal a sut y gellid eu gwella;
- Adolygwch eich cefnogaeth bresennol i'r gymuned B / byddar ac i'r rhai sy'n byw gydag anableddau eraill, gan gynnwys anableddau cudd, a gweithio tuag at wella'r gwasanaethau hyn yn barhaus.

## 3. Adeiladu economi yn seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol

Gan gyd-fynd â chryfhau ein Contract Economaidd, mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ceisio sicrhau ffocws o'r newydd ar bobl ifanc drwy Warant Pobl Ifanc. Mae partneriaeth gymdeithasol, swyddi cynaliadwy, hyrwyddwyr cyflogaeth pobl anabl, a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol yn elfennau allweddol o'r ymrwymiad hwn.

Hoffwn i Amgueddfa Cymru:

- Darparu ystod newydd neu well o opsiynau i gefnogi pobl ifanc Cymru i gael gwaith – gallai'r rhain gynnwys prentisiaethau, hyfforddiant, profiad gwaith a rhaglenni mentora a dylent gyd-fynd â'r Warant Person Ifanc;
- Defnyddio'r rhwydwaith newydd o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl i helpu i gau'r bwlch rhwng pobl anabl a gweddill y boblogaeth sy'n gweithio;
- Gweithio tuag at darged o 30% o leiaf ar gyfer gweithio gartref, yn seiliedig ar ddull cyfunol sy'n deg;
- Datblygu a chryfhau eich prosesau caffael presennol i helpu i gefnogi cadwyni cyflenwi lleol;
- Ceisio cynyddu ei gynaliadwyedd ariannol, wedi'i gefnogi gan weithgarwch cynhyrchu incwm priodol;
- Adeiladu a chryfhau partneriaethau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol er budd Amgueddfa Cymru, economi Cymru a phobl Cymru.

## 4. Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni wneud y cynnydd mwyaf tuag at ddatgarboneiddio

Mae gan ein Rhaglen Lywodraethu bwyslais ar dwf cynaliadwy, ac ar seilwaith digidol, economaidd a thrafnidiaeth newydd a all helpu i ail-ysgogi ein cymunedau.

Hoffwn i Amgueddfa Cymru:

- Cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030;
- Cefnogi targed Llywodraeth Cymru o 45% o deithiau yn cael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040;
- Adolygwch eich gweithgarwch digidol cyfredol ar ôl i ymgysylltu digidol gyflymu'n ddiweddar yn ystod Covid-19. Dylech nodi a mynd i'r afael â meysydd o wendid, chwilio am enghreifftiau o arfer gorau o fewn eich sefydliad eich hun a chan eraill, a cheisio adeiladu ar lwyddiannau 2020-21.

## 5. Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn

Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar drawsnewid gwyrdd fel rhan o'n huchelgais i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Hoffwn i Amgueddfa Cymru:

- Canolbwyntio ar leihau gwastraff ar draws y sefydliad cyfan a gweithio i gyflawni targedau dim gwastraff a thuag at ddiddymu'r defnydd o blastigau untro mwy cyffredin;

- Caffael cynhyrchion carbon isel;
- Sefydlu hyrwyddwyr gwyrdd yn y gweithle;
- Sicrhau bod effaith bioamrywiaeth yn cael ei hystyried yn briodol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau;
- Gweithio gyda chyrff fel WRAP Cymru a'r Ymddiriedolaeth Garbon i lywio penderfyniadau polisi.

**6. Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi**

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc, eu teuluoedd a'r gweithlu addysg i sicrhau'r canlyniadau gorau i ddysgwyr, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed.

Hoffwn i Amgueddfa Cymru:

- Ystyried sut y gallai diwygio'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol effeithio ar ei wasanaethau addysg;
- Adeiladu ar eich cysylltiad llwyddiannus â'r Haf o Hwyl yn 2021 drwy ystyried sut y gallech gefnogi rhaglen cyfoethogi gwyliau ysgol;
- Cefnogi'r cwricwlwm newydd yng Nghymru;
- Datblygu rhaglenni sgiliau a chyflogadwyedd sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, gan annog pobl ifanc i'r sector;
- Sefydlu cyfleoedd prentisiaeth a gwirfoddoli i gefnogi a datblygu gweithlu'r genhedlaeth nesaf;
- Cynnal eich statws IRO a gweithio i ddenu cyllid ymchwil mewn partneriaeth â sefydliadau addysg uwch.

**7. Dathlu amrywiaeth a symud i ddileu anghydraddoldeb o bob math**

Rhaid inni weithio gyda'n gilydd i sicrhau newid cadarnhaol, gan gydnabod ein dynoliaeth gyffredin wrth ddathlu amrywiaeth a gwahaniaeth.

Hoffwn i Amgueddfa Cymru:

- Ystyried sut mae llywodraethu'r Amgueddfa yn cefnogi egwyddorion 'Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru' a symud i fynd i'r afael ar frys ag unrhyw feysydd y mae angen gweithredu arnynt – rhaid i hyn gynnwys gwella amrywiaeth yn y gweithlu ac ar lefel Bwrdd;
- Gweithredu nodau'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, gan ystyried sut y bydd Amgueddfa Cymru yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni Cymru wrth-hiliol;
- Gweithredu nodau'r Cynllun Gweithredu LGBTQ;
- Mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, datblygu a chyflwyno Cynllun Gweithredu gan fwrw ymlaen ag argymhellion priodol a wnaed yn y tri adroddiad ehangu ymgysylltu a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021. Dylid gwneud y gwaith hwn ar y cyd â chymunedau.
- Mynd i'r afael ag unrhyw fylchau cyflog sy'n weddill yn seiliedig ar ryw, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd, anabledd, a mathau eraill o wahaniaethu a

allai fodoli yn eich sefydliadau, a mynd i'r afael ar frys ag unrhyw wahaniaethau cyflog parhaus;

- Sicrhau bod hanesion a diwylliannau ein cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu cynrychioli'n briodol gan Amgueddfa Cymru a'i phartneriaid cyflawni;
- Parhau i gryfhau partneriaethau gyda sefydliadau gwirfoddol ar draws ystod eich cyfrifoldebau;
- Gweithio gyda'r rhwydwaith newydd o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl i helpu i gau'r bwlch rhwng pobl anabl a gweddill y boblogaeth sy'n gweithio;
- Datblygu hyrwyddwyr cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n cwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig;
- Gwella ymgysylltiad yr Amgueddfa â chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol.

**8. Gwthio ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu**

Mae cyrff a noddir gan gelfyddydau, diwylliant a chwaraeon Llywodraeth Cymru yn bartneriaid allweddol o ran ehangu mynediad i'n treftadaeth, harneisio creadigrwydd, a datblygu gallu pobl Cymru ym maes chwaraeon. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i sicrhau bod gennych y cymorth sydd ei angen arnoch i gynnal eich lle priodol ar lwyfan y byd, ac mae eich rôl wrth gyflwyno Cymru i'r byd yr un mor bwysig. Rydych hefyd yn bartner allweddol wrth gefnogi ein hymrwymiad i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Hoffwn i Amgueddfa Cymru:

- Mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, ddatblygu a sefydlu'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol;
- Cydweithio ag Amgueddfa Wrecsam i gefnogi datblygiad Amgueddfa Bêl-droed Cymru;
- Datblygu Amgueddfa Gogledd Cymru ar safle Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis, gydag ymgynghoriad llawn mewn perthynas ag effaith y datblygiad ar amgueddfeydd lleol ar draws gogledd Cymru;
- Datblygu arlwy twristiaeth ddiwylliannol Cymru ar safleoedd yr Amgueddfa, gan sicrhau profiadau ymwelwyr effeithiol mewn mannau cyhoeddus deniadol;
- Sicrhau bod yr Amgueddfa yn gyrchfan i ymwelwyr sy'n ystyriol o deuluoedd;
- Sicrhau bod yr Amgueddfa'n darparu rhaglen addysg gynhwysfawr a ddwyieithog;
- Ymateb i strategaeth Cymraeg 2050 drwy barhau i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg, a thrwy greu amodau ffafriol lle gall y Gymraeg ffynnu;
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol;
- Datblygu cynllun hirdymor ar gyfer gofalu am adeiladau a chasgliadau eiconig yr Amgueddfa a'u cynnal, gan gynnwys cynllun strategol ar gyfer cyfleusterau storio priodol i gasgliadau cynyddol yr Amgueddfa.
- Cefnogi datblygu a gweithredu strategaeth ddiwylliant newydd i Gymru.

**9. Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd hyd yn oed gwell i fyw a gweithio ynddynt**

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i gefnogi ein partneriaid mewn llywodraeth leol, ac, mewn perthynas â'm cyfrifoldebau portffolio, mae'n tynnu sylw at sut y mae Llywodraeth Cymru am sicrhau y gall cymunedau ffynnu fel canolfannau cyfnewid cymdeithasol, hamdden, chwaraeon a diwylliant.

Hoffwn i Amgueddfa Cymru:

- Gwella ymwybyddiaeth o'r casgliad cenedlaethol, mynediad ato ac ymgysylltu ag ef drwy gynllun benthyca cynhwysfawr i orielau, amgueddfeydd a chymunedau ledled Cymru;
- Gweithio gyda thîm amgueddfeydd yr is-adran Diwylliant a Chwaraeon a Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru i ddatblygu strategaeth ar gyfer gweithio gyda'r sector amgueddfeydd lleol, gan gwmpasu rhannu arfer da ar y cyd, datblygu sgiliau, mynediad i'r casgliad cenedlaethol ac at arbenigedd Amgueddfa Cymru, a chydweithio ar bartneriaethau cydweithredol a chymunedol;
- Parhau i ddatblygu rhaglen wirfoddolwyr yr Amgueddfa, gan gynnwys gwirfoddoli digidol.

**10. Arwain Cymru mewn sgwrs ddinesig genedlaethol am ein dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar lwyfan y byd**

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn tynnu sylw at bwysigrwydd perthnasoedd byd-eang Cymru, o ddathlu gwahanol ddiwylliannau a chroesawu rhyngwladoldeb.

Mae gan Amgueddfa Cymru rôl bwysig i'w chwarae wrth gyflwyno Cymru i'r byd.

Hoffwn i Amgueddfa Cymru:

- Datblygu partneriaethau diwylliannol ac ymchwil rhyngwladol sy'n dod â budd i Gymru, annog ymgysylltu â hanesion amrywiol, a gwella proffil rhyngwladol Cymru;
- Ystyried cyfleoedd ar gyfer rhaglenni cyfnewid dysgu;
- Sicrhau'r defnydd gorau o dechnoleg ddigidol, digideiddio a digwyddiadau digidol fel ffordd o alluogi ymgysylltu ledled y byd â diwylliant Cymru;
- Ymgysylltu â'r diaspora Cymreig.

**ATODIAD B: Y Cyd-destun Strategol**

**Blaenoriaethau, Amcanion ac Ymrwymiadau Strategol Eraill**

Yn ogystal â'r hyn y gellir ei gyflawni yn Atodiad A, gallai gwaith Amgueddfa Cymru hefyd chwarae rhan bwysig wrth gyfrannu at flaenoriaethau polisi eraill Llywodraeth Cymru a'u cyflawni yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn parhau i fod yn sbardun pwysig i'n blaenoriaethau llesiant a'n nodau cyffredin yng Nghymru. Mae'r amcanion llesiant a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu yn bodoli i gefnogi a gwella'r gwaith o gyflawni'r nodau hyn dros y tymor hwn o Lywodraeth.

**Cymru Wyrddach**

Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei hymrwymiad i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050 ac mae wedi cyhoeddi ei chynllun Sero Net Cymru Gyfan: Gweithio Gyda'n Gilydd i Gyrraedd Sero Net (2021-2025). Ein huchelgais yw y bydd y sector cyhoeddus yn garbon niwtral erbyn 2030, gan arwain y ffordd o ran darparu Cymru Sero Net. Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn, rydym wedi cyhoeddi Canllaw Adrodd Sero Net y Sector Cyhoeddus a bydd map Llwybr y Sector Cyhoeddus yn darparu fframwaith clir ar gyfer sut y bydd y sector yn cyflawni sero net erbyn 2030.

Yn ogystal â lleihau allyriadau, mae angen i ni hefyd feithrin gwydnwch i effeithiau newid yn yr hinsawdd er mwyn sicrhau y gallwn barhau i ddarparu ein gwasanaethau cyhoeddus allweddol. Cyhoeddodd y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd ei drydydd Asesiad Risg newid yn yr Hinsawdd ar gyfer y DU, sy'n tynnu sylw at amrywiaeth o risgiau a chyfleoedd i'r amgylchedd, cymunedau a busnesau sy'n deillio o hinsawdd sy'n newid. Rhaid i Sector Cyhoeddus Cymru ddangos ei fod wedi deall ac ystyried y risgiau a'r cyfleoedd wrth ddarparu ei wasanaethau.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Y Tu Hwnt i Ailgylchu – strategaeth i wireddu'r economi gylchol yng Nghymru', sy'n amlinellu ein nodau i fod yn ddiwastraff erbyn 2050 ac ar gyfer gwneud defnyddio adnoddau'n effeithlon yn rhan o ddiwylliant Cymru. Mae symud i economi gylchol yn hanfodol er mwyn cyflawni camau amgylcheddol allweddol.

**Cymru Decach**

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn dangos sut yr ydym yn bwriadu sicrhau'r tegwch mwyaf posibl i bawb a dileu anghydraddoldeb ar bob lefel o gymdeithas. Mae'n edrych ar sut y byddwn yn mynd i'r afael ag achosion systemig anghydraddoldeb o bob math.

Yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth, byddwn yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (REAP) newydd i Gymru, a chynllun gweithredu ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb LGBTQ+ yng Nghymru. Dylid darllen y cynlluniau gweithredu hyn ochr yn ochr â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Ein Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol a'n Fframwaith Gweithredu ar Anabledd. Fe'u cynlluniwyd i sicrhau newid parhaus yn y

tymor byr, canolig a hir, a rhaid i'n cyrff a noddir ddangos ymateb clir a rhagweithiol i gyflawni'r amcanion a nodir yn y cynlluniau hyn.

Rydym eisoes wedi cynnal archwiliad o wasanaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y gymuned B/byddar ac mae'r Rhaglen Lywodraethu hefyd yn ymrwymo i gymryd camau i gefnogi pobl anabl. Mae llawer i'w wneud o hyd i'w galluogi i ymgysylltu â diwylliant a rhaid i hyn fod yn flaenoriaeth.

Rydym wedi ymrwymo i estyn allan at grwpiau agored i niwed Cymru ac ymgysylltu â hwy, gan sicrhau bod Cymru'n genedl sy'n ystyriol o oedran, ac na ddylai tlodi, anfantais gymdeithasol, afiechyd ac anabledd fod yn rhwystr rhag cymryd rhan. Dylai cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru adolygu eu gwaith gyda'r grwpiau hyn yn gyson a dylent fod yn enghreifftiau o arfer da o ran ehangu mynediad a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol.

**Cymru Iachach**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod diwylliant, y celfyddydau a chwaraeon yn cynnig ffordd o wella iechyd a lles cenedl. Felly, rhaid i gyfranogiad barhau i fod yn faes ffocws. Hoffwn weld y cyrff a noddir yn fy mhortffolio yn ymgysylltu â rhanddeiliaid newydd ac amrywiol, gan weithio gyda chynulleidfaoedd a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, a mynd ati i fynegi'r cysylltiad rhwng eich gwaith a iechyd a lles pobl Cymru.

**Strategaethau eraill a deddfwriaeth bresennol**

**Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn parhau i fod yn sbardun pwysig i'n blaenoriaethau llesiant a'n nodau a rennir yng Nghymru. Mae'r amcanion llesiant a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu yn bodoli i gefnogi a gwella'r gwaith o gyflawni'r nodau hyn dros y tymor newydd hwn o lywodraeth.

Mae ein **Cynllun Gweithredu Economaidd** yn seiliedig ar yr egwyddor o fuddsoddi cyhoeddus gyda phwrpas cymdeithasol. Yn ganolog i'r Cynllun mae'r Contract Economaidd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n cael buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru ddangos twf cynhwysol, gwaith teg, hybu iechyd (gyda phwyslais arbennig ar iechyd meddwl), sgiliau a dysgu yn y gweithle, a chynnydd o ran lleihau ôl troed carbon.

Mae ein hymrwymiad i waith teg a chynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol yn cynnwys cyflawni gwarant y person ifanc ac addewid o greu 125,000 o brentisiaethau pob oed. Disgwyliaf ichi chwilio am gyfleoedd i gyfrannu at y Warant i Bobl Ifanc a'n nod o ddarparu 125,000 o brentisiaethau drwy gydol tymor y llywodraeth.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i gryfhau'r Contract Economaidd hwn a byddwn yn parhau i fonitro eich cynnydd o ran cyflawni yn erbyn pileri'r cynllun hwn.

Nod ein **Contract Diwylliannol yw sicrhau bod gan gyllid cyhoeddus ar gyfer diwylliant a** chreadigrwydd ddibenion cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Wrth wraidd y Contract Diwylliannol mae pedwar ymrwymiad gan gynnwys gwella

amrywiaeth byrddau, gweithlu a rhaglenni gwaith sefydliadau ochr yn ochr â chyfleoedd cynyddol i artistiaid unigol a gweithwyr llawrydd creadigol.

Mae Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru yn amlinellu tri uchelgais blaenoriaeth, ein partneriaethau presennol a'n perthnasoedd rhyngwladol â blaenoriaeth. Dylai cyrff a noddir gan Ddiwylliant, y Celfyddydau a Chwaraeon weithio'n agos gyda Thîm Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn ystod y tymor hwn o lywodraeth i arwain a chyfrannu at ymgyrchoedd, rhaglenni a phrosiectau sy'n helpu Cymru i sefyll allan ar lwyfan y byd.

Dylai gweithio gyda'r diaspora Cymreig a chyda partneriaid rhyngwladol wedi'u targedu er budd economaidd, diwylliannol a chymdeithasol cyffredin gael eu hadlewyrchu yn eich cynlluniau strategol a gweithredol.

Mae Amgueddfa Cymru yn bartner pwysig o ran twristiaeth yng Nghymru. Mae datblygu'r cynnig twristiaeth diwylliannol yn parhau i fod yn flaenoriaeth a dylid adlewyrchu 'Croeso i Gymru – Blaenoriaethau ar gyfer yr economi ymwelwyr 2020-2025' yn eich cynllunio busnes, ac fe'ch anogaf i greu a chynnal cysylltiadau cryf â thîm datblygu twristiaeth Llywodraeth Cymru wrth hyrwyddo'r maes gwaith hwn.

**Yr Iaith Gymraeg**

Mae strategaeth Cymraeg 2050 yn parhau i fod yn faes ffocws yn ein hymdrechion i gyrraedd y nod llesiant o gael iaith Gymraeg ffyniannus, ac o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rwy'n disgwyl i'r Gymraeg gael ei gwreiddio'n drwyadl ym mhopeth a wnewch, gan ddathlu dwyieithrwydd a galluogi pobl Cymru i ddefnyddio'r iaith fel rhan o'u bywydau bob dydd. Bydd canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn hysbys yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth, a byddwn yn diweddaru rhaglen waith Cymraeg 2050 ar gyfer y strategaeth, ond bydd y tair prif thema yn parhau – cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau ffafriol lle gall y Gymraeg ffynnu.

**Strategaeth ddiwylliannol**

Yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth byddwn yn creu ac yn cyhoeddi strategaeth ddiwylliannol newydd i Gymru a fydd yn diffinio ein blaenoriaethau diwylliannol ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Fel partneriaid allweddol, hoffwn weld y cyrff a noddir yn fy mhortffolio yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r strategaeth newydd ac, ar ôl ei gyhoeddi, dylai'r strategaeth fod yn sail i lawer o'ch gweithgarwch cynllunio a gweithredol hirdymor.

Bydd Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru newydd hefyd yn cael ei datblygu yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth, gan gysylltu penderfyniadau ar fuddsoddi cyfalaf â chyflawni canlyniadau strategol allweddol. Disgwylir y bydd derbynwyr grantiau cyfalaf yn darparu tystiolaeth feintiol sy'n dangos sut mae'r buddsoddiad yn helpu i gyflawni'r canlyniadau hynny.

**Strategaeth Ddigidol i Gymru**

Mae'r Strategaeth Ddigidol yn ceisio trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yn wirioneddol ddigidol ac mae'n rhoi cyfle i gefnogi'r ffyrdd o weithio a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Hoffwn ichi sicrhau bod eich holl wasanaethau ar gael ar-lein cyn belled ag y bo modd, ac y bydd pobl yn dewis defnyddio'r gwasanaethau hyn oherwydd eu bod wedi'u cynllunio'n dda ac yn hawdd eu defnyddio. Nodwch gyfleoedd i weithio gyda phartneriaid yn y sector treftadaeth ddiwylliannol ar fentrau digidol i hyrwyddo defnydd o'ch casgliadau a'ch adnoddau ac i hyrwyddo dysgu, addysg a mwynhad.

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**

**Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Phil George
Cadeirydd - Cyngor Celfyddydau Cymru
Bute Place
Caerdydd CF10 5AL

22 Rhagfyr 2021

Annwyl Phil,

**Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru**

Hoffwn ddiolch i Gyngor Celfyddydau Cymru am y gwaith pwysig y mae wedi'i wneud wrth ymateb i bandemig Covid-19. Mae'r cyrff a noddir yn fy mhortffolio wedi dangos arweinyddiaeth, hyblygrwydd a gwydnwch yn ystod amgylchiadau heriol. Rhaid inni symud yn awr i sicrhau bod buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn cefnogi adferiad ein sectorau, ein pobl a Chymru gyfan. Er gwaethaf yr heriau difrifol iawn y mae wedi'u cyflwyno, mae cyfle i ni geisio'r dysgu cadarnhaol o Covid-19, a chynnal y momentwm a gyflawnwyd ar y mynediad gwell i'r celfyddydau drwy ddigido, technolegau digidol newydd a digwyddiadau digidol.

Fel corff Siarter Frenhinol a sefydliad elusennol, rwy'n cydnabod bod yn rhaid i Gyngor y Celfyddydau barhau i weithredu yn unol ag ystod o gyfrifoldebau a ddiffiniwyd yn gyfreithiol. Mae'r rhain yn cyd-fynd â'ch cyfrifoldebau fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'i hymrwymiadau i bobl Cymru. Yn gyfnewid am y cyllid cymorth grant y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu, gofynnaf i Gyngor Celfyddydau Cymru ystyried sut y gall gyflawni ei amcanion mewn ffordd sy'n gyson â gwerthoedd Llywodraeth Cymru.

Dylai ein nodau a rennir gynnwys:

- Datgarboneiddio;
- Mynd i'r afael â phob anghydraddoldeb a sicrhau Cymru wrth-hiliol;
- Gwella mynediad a chyfranogiad i bawb;
- Hyrwyddo Iechyd a Llesiant;
- Creu cyfleoedd i bobl ifanc; a
- Chyflwyno delwedd bwerus a chadarnhaol o Gymru i'r byd.

Yn Atodiad A, rwyf wedi amlinellu'r meysydd lle rwy'n teimlo y gall Cyngor Celfyddydau Cymru gyfrannu at gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu. Mae'r cyd-destun strategol presennol ar gyfer gwaith cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru i'w gweld yn Atodiad B.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn bwysig er mwyn cyflawni ein nod o ehangu mynediad, cyfranogiad ac ymgysylltu. Yr wyf yn argyhoeddedig y gallai'r cyrff a noddir o fewn fy mhortffolio gyflawni cymaint mwy drwy gydweithio, ac fe'ch anogaf i gydweithio fel arweinwyr diwylliannol i wneud y mwyaf o'ch effaith.

Hoffwn eich atgoffa o'ch dyletswydd gyfreithiol o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. O dan Ran 1, mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i chi gyhoeddi amcanion tlodi plant fel rhan o strategaeth ar gyfer cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru. Hoffwn ichi feddwl am gamau gweithredu sy'n cefnogi lles plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi, a'ch annog i ystyried cyfleoedd i gyflawni eich rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y ddyletswydd o fewn eich prosesau sefydliadol presennol.

Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn bartner cyflawni allweddol ar gyfer nifer o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu; buddsoddi mewn theatrau, Theatr Clwyd a datblygu a sefydlu'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol. Edrychaf ymlaen at gael eich cefnogaeth a'ch arbenigedd gwerthfawr wrth fwrw ymlaen â'r ymrwymiadau hyn.

Mae Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru yn ddarn allweddol o waith y bwriedir ei wneud yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth. Yr wyf yn cydnabod y bydd yr Adolygiad yn sicr o fod yn heriol, yn bennaf oherwydd bydd pandemig Covid-19 wedi effeithio'n andwyol ar lawer o sefydliadau yn y portffolio presennol. Dylai adeiladu portffolio bywiog sy'n hyfyw yn ariannol fod yn amcan allweddol. Gofynnaf ichi sicrhau bod y portffolio newydd yn adlewyrchu amrywiaeth y Gymru gyfoes yn llawn a bod proses yr Adolygiad Buddsoddi yn sicrhau bod tegwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth wraidd hynny.

Yn unol â'r Ddogfen Fframwaith sy'n sail i'r berthynas rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru, dylech symud yn awr i adolygu eich cynlluniau busnes, gan ddangos sut y byddwch yn cyflawni yn erbyn y meysydd a amlinellir yn y llythyr hwn a'i atodiadau.

Mae'r angen i Gyngor Celfyddydau Cymru weithredu'n annibynnol o ddydd i ddydd yn glir, a'm bwriad yw y bydd ein perthynas yn parhau i fod yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y cyd, ac ar gyfathrebu agored a gonest.

Mae llawer i'w wneud, ond yr wyf yn argyhoeddedig y gall fy mhortffolio wneud gwahaniaeth cadarnhaol a pharhaol i fywydau pobl. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyflawni hyn.

Yn gywir,



**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**
cc Rebecca Nelson, Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro, Cyngor Celfyddydau Cymru

**Atodiad A: Y prif amcanion y bydd angen eu cyflawni**

**Ar gyfer pob un o'r prif gyflawniadau hyn, bydd fy swyddogion yn gweithio gyda chi i benderfynu, a chytuno ar ddangosyddion perfformiad priodol cyn y flwyddyn ariannol 2022-23. Dylid adrodd ar y dangosyddion perfformiad hyn bob chwarter, fel rhan o'r trefniadau monitro rheolaidd, a thrwy gydol y tymor hwn o Lywodraeth.**

## 1. Darparu gofal iechyd effeithiol, o ansawdd uchel a chynaliadwy

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn pwysleisio gwella'r ddarpariaeth iechyd meddwl ac mae'n canolbwyntio ar atal, cefnogi pobl i fyw bywydau iach, mynd i'r afael â stigma ym maes iechyd meddwl, a chyflwyno fframwaith Cymru gyfan i gyflwyno rhagnodi cymdeithasol fel ffordd o fynd i'r afael ag unigrwydd.

Hoffwn i Gyngor Celfyddydau Cymru:

- Weithredu ffyrdd o gefnogi iechyd meddwl da ar draws y sefydliad, gan sicrhau nad oes stigma ynghlwm wrth faterion iechyd meddwl;
- Sicrhau bod y gweithlu wedi'i hyfforddi'n briodol i gefnogi'r rhai sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl;
- Parhau i ymgysylltu â'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith arfaethedig ar gyfer Cymru gyfan ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol, ac, yn benodol, gwaith i nodi meysydd lle gallai'r Cyngor gefnogi presgripsiynu cymdeithasol i fynd i'r afael ag unigrwydd a chefnogi lles;
- Datblygu eich perthynas ymhellach â Chydffederasiwn GIG Cymru a Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru i hyrwyddo cyfleoedd i'r celfyddydau gyfrannu at iechyd a lles.

## 2. Diogelu, ail-adeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed

Mae ffocws y Rhaglen Lywodraethu yn y maes hwn yn ymwneud â gwasanaethau gofal integredig, a chefnogi dinasyddion sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n wynebu'r heriau mwyaf. Credaf y dylai ein cyrff a noddir helpu pobl Cymru i fyw bywydau ystyrlon, a rhaid iddynt ystyried sut y gallant wella eu cefnogaeth i'r bobl hynny sydd mewn grwpiau agored i niwed a / neu ddifreintiedig.

Hoffwn i Gyngor Celfyddydau Cymru:

- Sicrhau y gall yr ystod ehangaf o grwpiau sy'n agored i niwed ymgysylltu â'r celfyddydau yng Nghymru ac nad ydynt yn cael eu heithrio rhag cymryd rhan. Dylai hyn gynnwys nodi a darparu cyfleoedd penodol sy'n galluogi pobl mewn grwpiau agored i niwed neu ddifreintiedig a'r rhai mewn cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa o'r celfyddydau;
- Bod yn rhagweithiol ynghylch sicrhau bod y sefydliad yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fod yn genedl sy'n ystyriol o oedran;
- Ystyried y cyfleoedd rydych chi'n eu cynnig ar hyn o bryd i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal a sut y gellid eu gwella;

- Adolygwch eich cefnogaeth bresennol i gymunedau B/byddar ac i'r rhai sy'n byw gydag anableddau eraill, gan gynnwys anableddau cudd, a gweithio tuag at wella'r gwasanaethau hyn yn barhaus.

## 3. Adeiladu economi yn seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol

Gan gyd-fynd â chryfhau ein Contract Economaidd, mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ceisio sicrhau ffocws o'r newydd ar bobl ifanc drwy Warant Pobl Ifanc. Mae partneriaeth gymdeithasol, swyddi cynaliadwy, hyrwyddwyr cyflogaeth pobl anabl, a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol yn elfennau allweddol o'r ymrwymiad hwn.

Hoffwn i Gyngor Celfyddydau Cymru:

- Adeiladu ar y Contract Economaidd i ddatblygu'r Contract Diwylliannol, gan alluogi gwaith teg, cynhwysiant a chynaliadwyedd;
- Darparu ystod newydd neu well o opsiynau i gefnogi pobl ifanc Cymru i gael gwaith – gallai'r rhain gynnwys prentisiaethau, hyfforddiant, profiad gwaith a rhaglenni mentora a dylent gyd-fynd â'r Warant Person Ifanc;
- Defnyddio'r rhwydwaith newydd o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl i helpu i gau'r bwlch rhwng pobl anabl a gweddill y boblogaeth sy'n gweithio;
- Gweithio tuag at darged o 30% o leiaf ar gyfer gweithio gartref, yn seiliedig ar ddull cyfunol sy'n deg ;
- Datblygu a chryfhau eich prosesau caffael presennol i helpu i gefnogi cadwyni cyflenwi lleol;
- Adeiladu a chryfhau partneriaethau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol er budd Cyngor Celfyddydau Cymru, economi Cymru a phobl Cymru.

## 4. Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni wneud y cynnydd mwyaf tuag at ddatgarboneiddio

Mae gan ein Rhaglen Lywodraethu bwyslais ar dwf cynaliadwy, ac ar seilwaith digidol, economaidd a thrafnidiaeth newydd a all helpu i ail-ysgogi ein cymunedau.

Hoffwn i Gyngor Celfyddydau Cymru:

- Cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030;
- Cefnogi targed Llywodraeth Cymru o 45% o deithiau sy'n cael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040;
- Adolygwch eich gweithgarwch digidol cyfredol ar ôl cyflymu gweithgarwch digidol yn ddiweddar yn ystod Covid-19. Dylech nodi a mynd i'r afael â meysydd o wendid, chwilio am enghreifftiau o arfer gorau o fewn eich sefydliad a chan sefydliadau eraill, a cheisio adeiladu ar lwyddiannau 2020-21.

## 5. Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn

Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar drawsnewid gwyrdd fel rhan o'n huchelgais i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Hoffwn i Gyngor Celfyddydau Cymru:

- Canolbwyntio ar leihau gwastraff ar draws y sefydliad cyfan a gweithio i gyflawni targedau dim gwastraff a thuag at ddiddymu'r defnydd o blastigau untro sy'n fwy cyffredin;
- Gweithio gyda sefydliadau rydych yn eu hariannu i hyrwyddo'r defnydd o gynwysyddion ailgylchu ar wahân ar gyfer gwastraff bwyd, papur a cherdyn, metel a phlastig, gwydr, tecstilau ac offer electronig a thrydanol gwastraff bach mewn lleoliadau;
- Diddymu'r defnydd o blastigau untro mwy cyffredin;
- Caffael cynhyrchion carbon isel;
- Sefydlu hyrwyddwyr gwyrdd yn y gweithle;
- Sicrhau bod effaith bioamrywiaeth yn cael ei hystyried yn briodol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau;
- Gweithio gyda chyrff fel WRAP Cymru a'r Ymddiriedolaeth Garbon i lywio penderfyniadau polisi.

## 6. Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc, eu teuluoedd a'r gweithlu addysg i sicrhau'r canlyniadau gorau i ddysgwyr, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed.

Hoffwn i Gyngor Celfyddydau Cymru:

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ymestyn a datblygu'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau;
- Ystyried sut y gallai diwygio'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol effeithio ar eich gwasanaethau addysg ac ar eich aelodau yn y Portffolio Celfyddydol;
- Adeiladu ar eich cysylltiad llwyddiannus â'r Haf o Hwyl yn 2021 drwy ystyried sut y gallech gefnogi rhaglen cyfoethogi gwyliau ysgol;
- Cefnogi'r cwricwlwm newydd yng Nghymru;
- Datblygu rhaglenni sgiliau a chyflogadwyedd sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, gan annog pobl ifanc i'r sector;
- Sefydlu prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli i gefnogi a datblygu gweithlu'r genhedlaeth nesaf.

## 7. Dathlu amrywiaeth a symud i ddileu anghydraddoldeb o bob math

Rhaid inni weithio gyda'n gilydd i sicrhau newid cadarnhaol, gan gydnabod ein dynoliaeth gyffredin wrth ddathlu amrywiaeth a gwahaniaeth.

Hoffwn i Gyngor Celfyddydau Cymru:

- Ystyried sut mae llywodraethu Cyngor y Celfyddydau yn cefnogi egwyddorion 'Adlewyrchu Cymru yn Rhedeg Cymru' a symud i fynd i'r afael ar frys ag unrhyw feysydd y mae angen gweithredu arnynt – rhaid i hyn gynnwys gwella amrywiaeth yn y gweithlu ac ar lefel Bwrdd;
- Gweithredu nodau'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, gan ystyried sut y bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni Cymru wrth-hiliol;
- Gweithredu nodau'r Cynllun Gweithredu LGBTQ;
- Mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru, datblygu a chyflwyno Cynllun Gweithredu gan fwrw ymlaen ag argymhellion priodol a wnaed yn y tri adroddiad ehangu ymgysylltu a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021. Dylid gwneud y gwaith hwn ar y cyd â chymunedau.
- Mynd i'r afael ag unrhyw fylchau cyflog sy'n weddill yn seiliedig ar ryw, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd, anabledd, a mathau eraill o wahaniaethu a allai fodoli yn eich sefydliad, a mynd i'r afael ar frys ag unrhyw wahaniaethau cyflog parhaus;
- Sicrhau bod hanesion a diwylliannau ein cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu cynrychioli'n briodol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'i bartneriaid cyflawni;
- Parhau i gryfhau eich partneriaethau gyda sefydliadau gwirfoddol ar draws ystod eich cyfrifoldebau;
- Gweithio gyda'r rhwydwaith newydd o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl i helpu i gau'r bwlch rhwng pobl anabl a gweddill y boblogaeth sy'n gweithio;
- Datblygu hyrwyddwyr cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n cwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig;
- Gwella ymgysylltiad Cyngor Celfyddydau Cymru â chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol.

## 8. Gwthio ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu

Mae cyrff a noddir gan gelfyddydau, diwylliant a chwaraeon Llywodraeth Cymru yn bartneriaid allweddol o ran ehangu mynediad i'n treftadaeth, harneisio creadigrwydd, a datblygu gallu pobl Cymru ym maes chwaraeon. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i sicrhau bod gennych y cymorth sydd ei angen arnoch i gynnal eich lle priodol ar lwyfan y byd, ac mae eich rôl wrth gyflwyno Cymru i'r byd yr un mor bwysig. Rydych hefyd yn bartneriaid allweddol wrth gefnogi ein hymrwymiad i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Hoffwn i Gyngor Celfyddydau Cymru:

- Hyrwyddo ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i fuddsoddi yn ein theatrau, gan gynnwys Theatr Clwyd;

- Mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru, datblygu a sefydlu'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol;
- Ymateb i strategaeth Cymraeg 2050 drwy barhau i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg, a thrwy greu amodau ffafriol lle gall y Gymraeg ffynnu;
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol;
- Cyfrannu at ddatblygu arlwy twristiaeth ddiwylliannol Cymru, gan helpu i greu profiadau ymwelwyr effeithiol mewn mannau cyhoeddus deniadol.
- Cefnogi datblygu a gweithredu strategaeth ddiwylliant newydd i Gymru.

## 9. Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi hyd yn oed yn lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i gefnogi ein partneriaid mewn llywodraeth leol, ac, mewn perthynas â'm cyfrifoldebau portffolio, mae'n tynnu sylw at sut y mae Llywodraeth Cymru am sicrhau y gall cymunedau ffynnu fel canolfannau cyfnewid cymdeithasol, hamdden, chwaraeon a diwylliant.

Hoffwn i Gyngor Celfyddydau Cymru:

- Weithio gyda chymunedau lleol, grwpiau, unigolion a'r sectorau creadigol i rannu arfer da a datblygu sgiliau;
- Gweithio gyda chymunedau lleol, grwpiau, unigolion a'r sectorau creadigol i sefydlu rhwydweithiau newydd a chryf ledled Cymru;
- Gweithio gyda chymunedau lleol, grwpiau, unigolion a sectorau creadigol ledled Cymru i alluogi mynediad i'r Celfyddydau.

## 10. Arwain Cymru mewn sgwrs ddinesig genedlaethol am ein dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar lwyfan y byd

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn tynnu sylw at bwysigrwydd perthnasoedd byd-eang Cymru, o ddathlu gwahanol ddiwylliannau a chroesawu rhyngwladoldeb.

Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru rôl bwysig i'w chwarae wrth gyflwyno Cymru i'r byd.

Hoffwn i Gyngor Celfyddydau Cymru:

- Datblygu partneriaethau diwylliannol rhyngwladol sy'n dod â budd i Gymru, annog ymgysylltu â hanesion amrywiol, a gwella proffil rhyngwladol Cymru;
- Ystyried cyfleoedd ar gyfer rhaglenni cyfnewid dysgu;
- Sicrhau'r defnydd gorau o dechnoleg ddigidol, digideiddio a digwyddiadau digidol fel ffordd o alluogi ymgysylltu ledled y byd â chelfyddydau a diwylliant Cymru;
- Ymgysylltu â'r diaspora Cymreig.

**Atodiad B: Y Cyd-destun Strategol**

**Blaenoriaethau, Amcanion ac Ymrwymiadau Strategol Eraill**

Yn ogystal â'r hyn y gellir ei gyflawni yn Atodiad A, gallai gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd chwarae rhan bwysig wrth gyfrannu at flaenoriaethau polisi eraill Llywodraeth Cymru a'u cyflawni yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn parhau i fod yn sbardun pwysig i'n blaenoriaethau llesiant a'n nodau cyffredin yng Nghymru. Mae'r amcanion llesiant a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu yn bodoli i gefnogi a gwella'r gwaith o gyflawni'r nodau hyn dros y tymor hwn o Lywodraeth.

**Cymru Wyrddach**

Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei hymrwymiad i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050 ac mae wedi cyhoeddi ei chynllun Sero Net Cymru Gyfan: Gweithio Gyda'n Gilydd i Gyrraedd Sero Net (2021-2025). Ein huchelgais yw y bydd y sector cyhoeddus yn garbon niwtral erbyn 2030, gan arwain y ffordd o ran darparu Cymru Sero Net. Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn, rydym wedi cyhoeddi Canllaw Adrodd Sero Net y Sector Cyhoeddus a bydd map Llwybr y Sector Cyhoeddus yn darparu fframwaith clir ar gyfer sut y bydd y sector yn cyflawni sero net erbyn 2030.

Yn ogystal â lleihau allyriadau, mae angen i ni hefyd feithrin gwydnwch i effeithiau newid yn yr hinsawdd er mwyn sicrhau y gallwn barhau i ddarparu ein gwasanaethau cyhoeddus allweddol. Cyhoeddodd y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd ei drydydd Asesiad Risg newid yn yr Hinsawdd ar gyfer y DU, sy'n tynnu sylw at amrywiaeth o risgiau a chyfleoedd i'r amgylchedd, cymunedau a busnesau sy'n deillio o hinsawdd sy'n newid. Rhaid i Sector Cyhoeddus Cymru ddangos ei fod wedi deall ac ystyried y risgiau a'r cyfleoedd wrth ddarparu ei wasanaethau.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Beyond Recycling – strategaeth i wireddu'r economi gylchol yng Nghymru', sy'n amlinellu ein nodau i fod yn ddiwastraff erbyn 2050 ac ar gyfer gwneud effeithlonrwydd adnoddau yn rhan o ddiwylliant Cymru. Mae symud i economi gylchol yn hanfodol er mwyn cyflawni camau amgylcheddol allweddol.

**Cymru Decach**

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn dangos sut yr ydym yn bwriadu sicrhau'r tegwch mwyaf posibl i bawb a dileu anghydraddoldeb ar bob lefel o gymdeithas. Mae'n edrych ar sut y byddwn yn mynd i'r afael ag achosion systemig anghydraddoldeb o bob math.

Yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth, byddwn yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (REAP) newydd i Gymru, a chynllun gweithredu ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb LGBTQ+ yng Nghymru. Dylid darllen y cynlluniau gweithredu hyn ochr yn ochr â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Ein Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol a'n Fframwaith Gweithredu ar Anabledd. Fe'u cynlluniwyd i sicrhau newid parhaus yn y tymor byr, canolig a hir, a rhaid i'n cyrff a noddir ddangos ymateb clir a rhagweithiol i gyflawni'r amcanion a nodir yn y cynlluniau hyn.

Rydym eisoes wedi cynnal archwiliad o wasanaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y gymuned D/byddar ac mae'r Rhaglen Lywodraethu hefyd yn ymrwymo i gymryd camau i gefnogi pobl anabl. Mae llawer i'w wneud o hyd i'w galluogi i ymgysylltu â'r celfyddydau a rhaid i hyn fod yn flaenoriaeth.

Rydym wedi ymrwymo i estyn allan at grwpiau agored i niwed Cymru ac ymgysylltu â hwy, gan sicrhau bod Cymru'n genedl sy'n ystyriol o oedran, ac na ddylai tlodi, anfantais gymdeithasol, afiechyd ac anabledd fod yn rhwystr rhag cymryd rhan. Dylai cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru adolygu eu gwaith gyda'r grwpiau hyn yn gyson a dylent fod yn enghreifftiau o arfer da o ran ehangu mynediad a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol, gyda Chyngor Celfyddydau Cymru yn cymryd cyfrifoldeb clir dros sicrhau y gall grwpiau agored i niwed ymgysylltu'n briodol â'r celfyddydau yng Nghymru.

**Cymru Iachach**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod diwylliant, y celfyddydau a chwaraeon yn cynnig ffordd o wella iechyd a lles cenedl. Felly, rhaid i gyfranogiad barhau i fod yn faes ffocws. Hoffwn weld y cyrff a noddir yn fy mhortffolio yn ymgysylltu â rhanddeiliaid newydd ac amrywiol, gan weithio gyda chynulleidfaoedd a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, a mynd ati i fynegi'r cysylltiad rhwng eich gwaith ac iechyd a lles pobl Cymru.

**Strategaethau eraill a deddfwriaeth bresennol**

**Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn parhau i fod yn sbardun pwysig i'n blaenoriaethau llesiant a'n nodau a rennir yng Nghymru. Mae'r amcanion llesiant a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu yn bodoli i gefnogi a gwella'r gwaith o gyflawni'r nodau hyn dros y tymor newydd hwn o lywodraeth.

Mae ein **Cynllun Gweithredu Economaidd yn seiliedig ar yr egwyddor o fuddsoddi cyhoeddus gyda phwrpas** cymdeithasol. Yn ganolog i'r Cynllun mae'r Contract Economaidd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n cael buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru ddangos twf cynhwysol, gwaith teg, hybu iechyd (gyda phwyslais arbennig ar iechyd meddwl), sgiliau a dysgu yn y gweithle, a chynnydd o ran lleihau ôl troed carbon.

Mae ein hymrwymiad i waith teg a chynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol yn cynnwys cyflawni gwarant y person ifanc ac addewid o greu 125,000 o brentisiaethau pob oed. Disgwyliaf ichi chwilio am gyfleoedd i gyfrannu at y Warant i Bobl Ifanc a'n nod o ddarparu 125,000 o brentisiaethau drwy gydol tymor y llywodraeth.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i gryfhau'r Contract Economaidd hwn a byddwn yn parhau i fonitro eich cynnydd o ran cyflawni yn erbyn pileri'r cynllun hwn.

Nod ein **Contract Diwylliannol yw sicrhau bod gan gyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau** ddibenion cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Wrth wraidd y Contract Diwylliannol mae pedwar ymrwymiad gan gynnwys gwella amrywiaeth

byrddau, gweithlu a rhaglenni gwaith sefydliadau ochr yn ochr â chyfleoedd cynyddol i artistiaid unigol a gweithwyr llawrydd creadigol. Yr wyf yn ymwybodol eich bod yn gweithio gyda Cymru Greadigol ar hyn o bryd i ddatblygu manylion y Contract Diwylliannol ac fe'ch anogaf i adlewyrchu hyn yn eich cyllid ar gyfer y sector celfyddydau yn y dyfodol.

Mae Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru yn amlinellu tri uchelgais blaenoriaeth, ein partneriaethau presennol a'n perthnasoedd rhyngwladol â blaenoriaeth. Mae gwaith pwysig eisoes yn cael ei wneud drwy'r cytundeb lefel gwasanaeth presennol rhwng eich tîm rhyngwladol, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, a Llywodraeth Cymru.  Dylech barhau i weithio'n agos gyda Thîm Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn ystod y tymor hwn o lywodraeth i arwain a chyfrannu at ymgyrchoedd, rhaglenni a phrosiectau sy'n helpu Cymru i sefyll allan ar lwyfan y byd.

Dylai gweithio gyda'r diaspora Cymreig a chyda phartneriaid rhyngwladol wedi'u targedu er budd economaidd, diwylliannol a chymdeithasol cydfuddiannol gael eu hadlewyrchu yn eich cynlluniau strategol a gweithredol.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn bartner pwysig o ran twristiaeth Cymru. Mae tyfu'r cynnig twristiaeth ddiwylliannol yn parhau i fod yn flaenoriaeth a dylid adlewyrchu 'Croeso i Gymru – Blaenoriaethau ar gyfer yr economi ymwelwyr 2020-2025' yn eich cynllunio busnes, ac fe'ch anogaf i greu a chynnal cysylltiadau cryf â thîm datblygu twristiaeth Llywodraeth Cymru wrth hyrwyddo'r maes gwaith hwn.

## Yr Iaith Gymraeg

Mae strategaeth Cymraeg 2050 yn parhau i fod yn faes ffocws yn ein hymdrechion i gyrraedd y nod llesiant o gael iaith Gymraeg ffyniannus, ac o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rwy'n disgwyl i'r Gymraeg gael ei gwreiddio'n drwyadl ym mhopeth a wnewch, gan ddathlu dwyieithrwydd a galluogi pobl Cymru i ddefnyddio'r iaith fel rhan o'u bywydau bob dydd. Bydd canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn hysbys yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth, a byddwn yn diweddaru rhaglen waith Cymraeg 2050 ar gyfer y strategaeth, ond bydd y tair prif thema yn parhau – cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau ffafriol lle gall y Gymraeg ffynnu.

Yr wyf yn ymwybodol bod Cyngor y Celfyddydau wedi cynhyrchu Cynllun Gweithredu'r Gymraeg mewn ymateb i ymchwil mapio cynharach a gomisiynwyd gennych.  Byddem yn eich annog i sicrhau bod gweithredu'r Cynllun Gweithredu yn cyd-fynd ag amcanion Llywodraeth Cymru yn y maes hwn ac yn eu cefnogi.

## Strategaeth ddiwylliannol

Yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth byddwn yn creu ac yn cyhoeddi strategaeth ddiwylliannol newydd i Gymru a fydd yn diffinio ein blaenoriaethau diwylliannol ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Fel partneriaid allweddol, hoffwn weld y cyrff a noddir yn fy mhortffolio yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r strategaeth newydd ac, ar ôl ei gyhoeddi, dylai'r strategaeth fod yn sail i lawer o'ch gweithgarwch cynllunio a gweithredol hirdymor.

Bydd Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru newydd hefyd yn cael ei datblygu yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth, gan gysylltu penderfyniadau ar fuddsoddi cyfalaf â chyflawni canlyniadau strategol allweddol. Ein disgwyliad yw y bydd derbynwyr grantiau cyfalaf yn darparu tystiolaeth feintiol sy'n dangos sut mae'r buddsoddiad yn helpu i gyflawni'r canlyniadau hynny.

**Strategaeth Ddigidol i Gymru**

Mae'r Strategaeth Ddigidol yn ceisio trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yn wirioneddol ddigidol ac mae'n rhoi cyfle i gefnogi'r ffyrdd o weithio a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Hoffwn ichi sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod eich holl wasanaethau ar gael ar-lein ac y bydd pobl yn dewis defnyddio'r gwasanaethau hyn oherwydd eu bod wedi'u cynllunio'n dda ac yn hawdd eu defnyddio. Nodwch gyfleoedd i weithio gyda phartneriaid yn y sector celfyddydau ar fentrau digidol i hyrwyddo ymgysylltiad â'r celfyddydau ac i hyrwyddo dysgu, addysg a mwynhad.

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**

**Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Ashok Ahir
Llywydd Dros Dro - Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Ffordd Penglais
Aberystwyth
SY23 3BU
Rhagfyr 2021

22 Rhagfyr 2021

Annwyl Ashok

**Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer Tymor Llywodraethu Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

Hoffwn ddiolch i Lyfrgell Genedlaethol Cymru am y gwaith pwysig mae wedi'i wneud wrth ymateb i bandemig COVID-19. Mae'r cyrff a noddir yn fy mhortffolio wedi dangos arweinyddiaeth, hyblygrwydd a chadernid yn ystod amgylchiadau heriol. Rhaid inni fynd ati yn awr i sicrhau bod buddsoddiadau Llywodraeth Cymru yn cefnogi ein sectorau, ein pobl a Chymru gyfan i adfer o COVID-19. Er gwaethaf yr heriau difrifol iawn o ganlyniad i COVID-19, mae cyfle inni ddysgu gwersi cadarnhaol a chynnal y momentwm rydym wedi'i fagu mewn perthynas â mynediad gwell at ddiwylliant drwy ddigideiddio, technolegau digidol newydd a digwyddiadau digidol.

Rwy'n disgwyl i'r Llyfrgell barhau i gyflawni'r cyfrifoldebau statudol a nodir yn eich Siarter Frenhinol, gan weithredu fel yr unig lyfrgell adneuo gyfreithiol yng Nghymru, a chynnal statws y Llyfrgell fel Man Adneuo ar gyfer cofnodion cyhoeddus a Gwasanaeth Archifau Achrededig. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'i hymrwymiadau i bobl Cymru. Yn gyfnewid am y cyllid cymorth grant y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu, gofynnaf i Lyfrgell Genedlaethol Cymru ystyried sut y gall gyflawni ei hamcanion mewn ffordd sy'n cyd-fynd â gwerthoedd Llywodraeth Cymru.

Isod mae'r nodau y dylem eu rhannu:

- Datgarboneiddio;
- Mynd i'r afael â phob math o anghydraddoldeb a sicrhau Cymru wrth-hiliol;
- Gwella mynediad a chyfranogiad ar gyfer pawb;
- Hyrwyddo Iechyd a Llesiant;
- Creu cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc;
- Chyflwyno delwedd bwerus a chadarnhaol o Gymru i'r byd.

Yn Atodiad A rwyf wedi amlinellu meysydd lle rwy'n teimlo y gall Llyfrgell Genedlaethol Cymru gyfrannu at gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu. Mae'r cyd-destun strategol presennol ar gyfer gwaith cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru yn Atodiad B.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn bwysig wrth gyflawni ein nodau cyffredin. Rwy'n gwbl sicr y gallai'r cyrff a noddir o fewn fy mhortffolio gyflawni cymaint mwy drwy gydweithio, a hoffwn eich annog i weithio gyda'ch gilydd fel arweinwyr diwylliannol i sicrhau eich bod yn cael yr effaith fwyaf posibl.

Mae ehangu mynediad a chyfranogiad, gwella'r ffordd mae incwm yn cael ei gynhyrchu a chynnal sefydlogrwydd ariannol y Llyfrgell yn ddisgwyliadau sylfaenol. Rwy'n teimlo'n gryf iawn y dylai Llyfrgell Genedlaethol Cymru wneud mwy na dim ond adlewyrchu Cymru gyfoes – dylai fod yn ganolig iddi.

Dylech barhau i weithredu argymhellion yr Adolygiad wedi'i Deilwra a gwaith i gwblhau'r rhaglen hon o weithgareddau yn gynnar yn ystod y tymor llywodraethu hwn. Rhaid i ddarparu'r Archif Ddarlledu Genedlaethol a sicrhau bod pobl Cymru yn gallu defnyddio ei gynnwys hefyd fod yn ffocws allweddol.

Hoffwn eich atgoffa o'ch dyletswydd gyfreithiol o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. O dan Ran 1, mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol ichi gyhoeddi amcanion i fynd i'r afael â thlodi plant fel rhan o strategaeth ar gyfer cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru. Hoffwn ichi feddwl am gamau gweithredu sy'n cefnogi lles plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi, a'ch annog i ystyried cyfleoedd i gyflawni eich rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y ddyletswydd o fewn prosesau presennol eich sefydliad.

Yn unol â'r Ddogfen Fframwaith, sy'n sail i'r berthynas rhwng Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru, dylech fynd ati yn awr i adolygu eich cynlluniau busnes, gan ddangos sut y byddwch yn cyflawni yn erbyn y meysydd a amlinellir yn y llythyr hwn a'i atodiadau.

Mae'r angen i Lyfrgell Genedlaethol Cymru weithredu'n annibynnol o ddydd i ddydd yn glir, a'm bwriad yw y bydd ein perthynas yn parhau i fod yn seiliedig ar barchu ac ymddiried yn ein gilydd, ac ar gyfathrebu agored a gonest.

Mae llawer i'w wneud, ond rwy'n gwbl sicr y gall fy mhortffolio wneud gwahaniaeth cadarnhaol a pharhaol i fywydau pobl.  Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyflawni hyn.

Yn gywir,



**Dawn Bowden AS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a’r Prif Chwip**

Copi at Pedr ap Llwyd

**ATODIAD A: Y Prif Amcanion y bydd angen eu cyflawni**

**Ar gyfer pob un o'r prif amcanion hyn, bydd fy swyddogion yn gweithio gyda chi i nodi a chytuno ar ddangosyddion perfformiad priodol cyn blwyddyn ariannol 2022–23. Dylid adrodd ar y dangosyddion perfformiad hyn bob chwarter, fel rhan o'r trefniadau monitro rheolaidd, a thrwy gydol y tymor llywodraethu hwn.**

## 1. Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy o ansawdd uchel

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn pwysleisio gwella'r ddarpariaeth ar gyfer iechyd meddwl ac mae'n canolbwyntio ar atal, cefnogi pobl i fyw bywydau iach, cael gwared ar y stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, a chyflwyno fframwaith Cymru gyfan i sefydlu rhagnodi cymdeithasol fel ffordd o fynd i'r afael ag unigrwydd.

Hoffwn i Lyfrgell Genedlaethol Cymru wneud y canlynol:

- Rhoi ffyrdd o gefnogi iechyd meddwl da ar draws y sefydliad ar waith, gan sicrhau nad oes stigma yn gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl;
- Sicrhau bod y gweithlu wedi'i hyfforddi'n briodol i gefnogi'r rhai sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl;
- Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r fframwaith arfaethedig i Gymru gyfan ar gyfer rhagnodi cymdeithasol ac, yn benodol, gweithio i nodi meysydd lle y gallai'r Llyfrgell gefnogi rhagnodi cymdeithasol i fynd i'r afael ag unigrwydd a chefnogi lles.

## 2. Diogelu, ail-adeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed

Mae ffocws y Rhaglen Lywodraethu yn y maes hwn yn ymwneud â gwasanaethau gofal integredig, gan gefnogi dinasyddion sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n wynebu'r heriau mwyaf. Credaf y dylai ein cyrff a noddir helpu pobl Cymru i fyw bywydau ystyrlon, a dylech ystyried sut y gallwch wella eich cymorth ar gyfer pobl mewn grwpiau agored i niwed a / neu ddifreintiedig.

Hoffwn i Lyfrgell Genedlaethol Cymru wneud y canlynol:

- Sicrhau y gall yr amrediad ehangaf o grwpiau agored i niwed gyfranogi yn niwylliant Cymru ac nad ydynt yn cael eu heithrio rhag cymryd rhan. Dylai hyn gynnwys nodi a darparu cyfleoedd penodol sy'n galluogi pobl mewn grwpiau agored i niwed neu ddifreintiedig, a'r rhai mewn cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, i elwa ar y gwasanaethau a gynigir gennych;
- Bod yn rhagweithiol ynghylch sicrhau bod y sefydliad yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fod yn genedl sy'n ystyriol o oedran;
- Ystyried y cyfleoedd rydych yn eu cynnig ar hyn o bryd i blant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi gadael gofal a sut y gellid eu gwella;
- Adolygu eich cymorth presennol ar gyfer cymunedau B/byddar ac i'r rhai sy'n byw gydag anableddau eraill, gan gynnwys anableddau cudd, a gweithio tuag at wella'r gwasanaethau hyn yn barhaus.

## 3. Adeiladu economi yn seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol

Gan gyd-fynd â'r gwaith o gryfhau ein Contract Economaidd, mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ceisio sicrhau ffocws o'r newydd ar bobl ifanc drwy'r Warant i Bobl Ifanc. Mae partneriaeth gymdeithasol, swyddi cynaliadwy, hyrwyddwyr cyflogaeth pobl anabl, a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol yn elfennau allweddol o'r ymrwymiad hwn.

Hoffwn i Lyfrgell Genedlaethol Cymru wneud y canlynol:

- Darparu amrediad newydd neu well o opsiynau i gefnogi pobl ifanc Cymru i gael gwaith – gallai'r rhain gynnwys prentisiaethau, hyfforddiant, profiad gwaith a rhaglenni mentora, a dylent gyd-fynd â'r Warant i Bobl Ifanc;
- Defnyddio'r rhwydwaith newydd o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl i helpu i gau'r bwlch rhwng pobl anabl a gweddill y boblogaeth sy'n gweithio;
- Gweithio tuag at darged i weld o leiaf 30% o'ch staff yn gweithio gartref, yn seiliedig ar ddull cyfunol sy'n deg ac yn gyfiawn;
- Datblygu a chryfhau eich prosesau caffael presennol i helpu i gefnogi cadwyni cyflenwi lleol;
- Ceisio gwneud y Llyfrgell yn fwy ariannol gynaliadwy, wedi'i chefnogi gan weithgareddau cynhyrchu incwm priodol;
- Adeiladu a chryfhau partneriaethau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol er budd Llyfrgell Genedlaethol Cymru, economi Cymru a phobl Cymru.

## 4. Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni wneud y cynnydd mwyaf posibl tuag at ddatgarboneiddio

Mae gan ein Rhaglen Lywodraethu bwyslais ar dwf cynaliadwy, ac ar seilweithiau digidol, economaidd a thrafnidiaeth newydd a all helpu i roi hwb o’r newydd i’n cymunedau.

Hoffwn i Lyfrgell Genedlaethol Cymru wneud y canlynol:

- Cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030;
- Cefnogi targed Llywodraeth Cymru i weld 45% o deithiau'n cael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040;
- Adolygu eich gweithgareddau digidol cyfredol yn dilyn y defnydd uwch o dechnoleg ddigidol yn ddiweddar yn ystod pandemig COVID-19. Dylech nodi a mynd i'r afael â meysydd o wendid, chwilio am enghreifftiau o'r arferion gorau o fewn eich sefydliad eich hun ac o fewn sefydliadau eraill, a cheisio adeiladu ar lwyddiannau 2020–21. Parhau i ddatblygu gallu i guradu a chadw deunyddiau digidol-anedig.

## 5. Ymgorfforì ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur ym mhopeth rydym yn ei wneud

Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar drawsnewid gwyrdd fel rhan o'n huchelgais i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Hoffwn i Lyfrgell Genedlaethol Cymru wneud y canlynol:

- Canolbwyntio ar leihau gwastraff ar draws y sefydliad cyfan, a gweithio i gyflawni targedau dim gwastraff a diddymu'r defnydd o blastigau untro, sydd yn aml yn cael eu taflu;
- Caffael cynhyrchion carbon isel;
- Sefydlu hyrwyddwyr gwyrdd yn y gweithle;
- Sicrhau bod yr effaith ar fioamrywiaeth yn cael ei hystyried mewn modd priodol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau;
- Gweithio gyda chyrff fel WRAP Cymru a'r Ymddiriedolaeth Garbon i lywio penderfyniadau polisi mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur.

## 6. Parhau â'n rhaglen hirdymor i ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn cael eu lleihau a bod safonau'n codi

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc, eu teuluoedd a'r gweithlu addysg i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer dysgwyr, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed.

Hoffwn i Lyfrgell Genedlaethol Cymru wneud y canlynol:

- Ystyried sut y gallai diwygio'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol effeithio ar eich gwasanaethau addysg;
- Ystyried sut y gallech gefnogi rhaglen cyfoethogi gwyliau ysgol;
- Cefnogi'r cwricwlwm newydd yng Nghymru;
- Datblygu rhaglenni sgiliau a chyflogadwyedd sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, gan annog pobl ifanc i ymuno â'r sector a sicrhau y gellir rhannu sgiliau arbenigol;
- Sefydlu prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli i gefnogi a datblygu gweithlu'r genhedlaeth nesaf;
- Cefnogi ymchwilwyr a'r gymuned academaidd.

## 7. Dathlu amrywiaeth a mynd ati i ddileu anghydraddoldeb o bob math

Rhaid inni weithio gyda'n gilydd i sicrhau newid cadarnhaol, gan gydnabod ein dynoliaeth gyffredin wrth ddathlu amrywiaeth a gwahaniaeth.

Hoffwn i Lyfrgell Genedlaethol Cymru wneud y canlynol:

- Ystyried sut mae trefniadau llywodraethu'r Llyfrgell yn cefnogi egwyddorion ['Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru'](), a mynd ati i fynd i'r afael ar frys ag unrhyw feysydd y mae angen gweithredu arnynt – rhaid i hyn gynnwys gwella amrywiaeth yn y gweithlu ac ar lefel Bwrdd;

- Gweithredu nodau'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, gan ystyried y bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cyfrannu'n uniongyrchol at sicrhau Cymru wrth-hiliol;
- Gweithredu nodau'r Cynllun Gweithredu LHDTC+;
- Mynd i'r afael ag unrhyw fylchau cyflog sy'n weddill yn seiliedig ar ryw, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd, anabledd, a mathau eraill o wahaniaethu a allai fodoli yn eich sefydliad, a mynd i'r afael ar frys ag unrhyw wahaniaethau cyflog parhaus;
- Sicrhau bod hanesion a diwylliannau ein cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig yn cael eu cynrychioli'n briodol gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a'i phartneriaid cyflawni;
- Parhau i gryfhau partneriaethau gyda sefydliadau gwirfoddol ar draws eich holl gyfrifoldebau;
- Gweithio gyda'r rhwydwaith newydd o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl i helpu i gau'r bwlch rhwng pobl anabl a gweddill y boblogaeth sy'n gweithio;
- Datblygu hyrwyddwyr cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n cwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig;
- Gwella'r ffordd mae'r Llyfrgell yn ymgysylltu â chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol.

## 8. Bwrw ymlaen tuag at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu

Mae cyrff diwylliant a chwaraeon a noddir gan Lywodraeth Cymru yn bartneriaid allweddol wrth ehangu mynediad at ein treftadaeth, harneisio creadigrwydd a datblygu gallu pobl Cymru ym maes chwaraeon. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i sicrhau bod gennych y cymorth sydd ei angen arnoch i gynnal eich priod le ar lwyfan y byd ac, yn yr un modd, mae eich rôl wrth ddangos Cymru i’r byd yn bwysig. Rydych hefyd yn bartner allweddol yn y gwaith o gefnogi ein hymrwymiad i weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Hoffwn i Lyfrgell Genedlaethol Cymru wneud y canlynol:

- Gweithio gydag Amgueddfa Cymru a phartneriaid allweddol eraill i hyrwyddo'r gwaith o sefydlu presenoldeb yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol yng nghanolbarth Cymru;
- Datblygu darpariaeth twristiaeth ddiwylliannol Cymru yn y Llyfrgell yn Aberystwyth ac yn ei his-ganolfannau, gan sicrhau profiadau sy'n creu argraff ar ymwelwyr, a hynny mewn mannau cyhoeddus deniadol;
- Sicrhau bod y Llyfrgell yn gyrchfan i ymwelwyr sy'n ystyriol o deuluoedd;
- Darparu'r Archif Ddarlledu Genedlaethol yn llwyddiannus a rhaglen gref a phellgyrhaeddol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned wedi'i chysylltiedig â'r fenter hon;
- Gwaith i ddiogelu enwau lleoedd Cymru;
- Sicrhau bod y Llyfrgell yn darparu rhaglen addysg gynhwysfawr a dwyieithog;
- Ymateb i strategaeth Cymraeg 2050 drwy barhau i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a’r defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau ffafriol lle y gall y Gymraeg ffynnu;
- Cefnogi datblygu a gweithredu strategaeth ddiwylliant newydd i Gymru.

- Gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol;
- Datblygu cynllun hirdymor ar gyfer cynnal a gofalu am adeiladau a chasgliadau eiconig y Llyfrgell, gan gynnwys cynllun strategol ar gyfer cyfleusterau storio priodol ar gyfer casgliadau'r Llyfrgell.

## 9. Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell byth i fyw a gweithio ynddynt

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i gefnogi ein partneriaid llywodraeth leol ac, mewn perthynas â'm cyfrifoldebau portffolio, mae'n tynnu sylw at y ffordd mae Llywodraeth Cymru am sicrhau y gall cymunedau ffynnu fel canolfannau ar gyfer cymdeithasu, hamdden, chwaraeon a diwylliant.

Hoffwn i Lyfrgell Genedlaethol Cymru wneud y canlynol:

- Gweithio gyda llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd lleol i rannu arferion da a datblygu sgiliau;
- Gweithio gyda llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd lleol i wella a chodi ymwybyddiaeth o gyrhaeddiad y casgliadau cenedlaethol;
- Parhau i weithio gyda llyfrgelloedd lleol i ddatblygu Gwasanaeth Llyfrgell Ddigidol Cenedlaethol Cymru ymhellach;
- Gweithio i ddatblygu'r rhyngwyneb dwyieithog ar gyfer yr Hyb Archifau;
- Gweithio i wella'r rhan mae'r sector lleol yn ei chwarae ym mhlatfform cyfrannu torfol y Llyfrgell Genedlaethol;
- Parhau i ddatblygu rhaglen wirfoddolwyr y Llyfrgell Genedlaethol.

## 10. Arwain Cymru mewn sgwrs genedlaethol rhwng dinasyddion am ein dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar lwyfan byd-eang

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn tynnu sylw at bwysigrwydd cysylltiadau byd-eang Cymru, a dathlu gwahanol ddiwylliannau a chroesawu cydwladoldeb.

Mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru rôl bwysig i'w chwarae wrth hyrwyddo Cymru gerbron y byd.

Hoffwn i Lyfrgell Genedlaethol Cymru wneud y canlynol:

- Datblygu partneriaethau diwylliannol rhyngwladol sydd o fudd i Gymru, annog bobl i ymddiddori mewn hanesion amrywiol, a gwella proffil rhyngwladol y Llyfrgell a Chymru;
- Ystyried cyfleoedd ar gyfer rhaglenni cyfnewid at ddibenion dysgu;
- Sicrhau bod technoleg ddigidol, digideiddio a digwyddiadau digidol yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau posibl, fel ffordd o alluogi pobl ledled y byd i gymryd rhan yn niwylliant Cymru;
- Ymgysylltu â'r Cymry sydd ar wasgar.

**ATODIAD B:Y Cyd-destun Strategol**

**Blaenoriaethau, Amcanion ac Ymrwymiadau Strategol Eraill**

Yn ogystal â'r amcanion y bydd angen eu cyflawni yn Atodiad A, gallai gwaith Llyfrgell Genedlaethol Cymru hefyd chwarae rhan bwysig wrth gyflawni a chyfrannu at flaenoriaethau polisi eraill Llywodraeth Cymru yn ystod y tymor llywodraethu hwn.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn parhau i fod yn sbardun pwysig i'n blaenoriaethau llesiant a'n nodau cyffredin yng Nghymru. Mae'r amcanion llesiant a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu yn bodoli i gefnogi a gwella'r gwaith o gyflawni'r nodau hyn yn ystod y tymor llywodraethu hwn.

**Cymru Wyrddach**

Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a’r argyfwng natur. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei hymrwymiad i gyflawni allyriadau sero-net erbyn 2050 ac mae wedi cyhoeddi ei Chynllun Sero-net ar gyfer Cymru Gyfan: Gweithio gyda'n gilydd i gyrraedd sero net (2021–2025). Ein huchelgais yw y bydd y sector cyhoeddus yn garbon niwtral erbyn 2030, gan arwain y ffordd wrth sicrhau Cymru Sero-net. Er mwyn ategu’r gwaith hwn, rydym wedi cyhoeddi Canllaw sector cyhoeddus Cymru ar gyfer adrodd ar garbon sero-net a bydd Map Ffordd y Sector Cyhoeddus yn darparu fframwaith clir ar gyfer sut y bydd y sector yn cyflawni sero-net erbyn 2030.

Yn ogystal â lleihau allyriadau, mae angen inni hefyd ddatblygu ein gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd er mwyn sicrhau y gallwn barhau i ddarparu ein gwasanaethau cyhoeddus allweddol. Cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd ei drydydd Asesiad Risg o newid yn yr Hinsawdd ar gyfer y DU, sy'n tynnu sylw at amrywiaeth o risgiau a chyfleoedd sy'n deillio o hinsawdd sy'n newid mewn perthynas â’r amgylchedd, cymunedau a busnesau. Rhaid i Sector Cyhoeddus Cymru ddangos ei fod wedi deall ac ystyried y risgiau a'r cyfleoedd wrth ddarparu ei wasanaethau.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y ddogfen Mwy nag Ailgylchu – Strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti, sy'n amlinellu ein nodau i fod yn ddiwastraff erbyn 2050, ac ar gyfer gwneud effeithlonrwydd adnoddau yn rhan o ddiwylliant Cymru. Mae symud i economi gylchol yn hanfodol er mwyn cyflawni camau amgylcheddol allweddol.

**Cymru Decach**

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn dangos sut yr ydym yn bwriadu sicrhau bod pawb yn cael eu trin mor deg ag y bo modd, a dileu anghydraddoldeb ar bob lefel y gymdeithas. Mae'n edrych ar sut y byddwn yn mynd i'r afael ag achosion systemig anghydraddoldeb o bob math.

Yn ystod y tymor llywodraethu hwn, byddwn yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol newydd i Gymru, a chynllun gweithredu ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb LHDTC+ yng Nghymru. Dylid darllen y cynlluniau gweithredu hyn ochr yn ochr â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ein Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol a'n Fframwaith Gweithredu ar Anabledd. Cynlluniwyd y rhain i sicrhau newid parhaus yn

y tymor byr, canolig a hir, a rhaid i'n cyrff a noddir ddangos ymateb clir a rhagweithiol wrth gyflawni'r nodau a amlinellir yn y cynlluniau hyn.

Rydym eisoes wedi cynnal archwiliad o wasanaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y gymuned B/byddar ac mae'r Rhaglen Lywodraethu hefyd wedi ymrwymo i gymryd camau i gefnogi pobl anabl. Mae llawer i'w wneud o hyd i'w galluogi i gymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol a rhaid i hyn fod yn flaenoriaeth.

Rydym wedi ymrwymo i estyn allan at grwpiau agored i niwed yng Nghymru ac ymgysylltu â nhw, gan sicrhau bod Cymru yn genedl sy'n ystyriol o oedran, ac na ddylai tlodi, anfantais gymdeithasol, afiechyd nac anabledd fod yn rhwystr rhag cyfranogi. Dylai cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru adolygu eu gwaith gyda'r grwpiau hyn yn gyson, a dylent fod yn batrymau enghreifftiol o arferion da o ran ehangu mynediad a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol, gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ysgwyddo cyfrifoldeb clir am sicrhau y gall grwpiau agored i niwed gymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol yng Nghymru mewn modd priodol.

## Cymru Iachach

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod diwylliant, y celfyddydau a chwaraeon yn cynnig ffordd o wella iechyd a lles gwlad. Felly, rhaid inni barhau i ganolbwyntio ar gyfranogiad. Hoffwn weld y cyrff a noddir yn fy mhortffolio yn ymgysylltu â rhanddeiliaid newydd ac amrywiol, gan weithio gyda chynulleidfaoedd a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, a mynd ati i ddangos y cysylltiad rhwng eich gwaith ac iechyd a lles pobl Cymru.

## Strategaethau eraill a deddfwriaeth bresennol

**Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn parhau i fod yn sbardun pwysig ar gyfer ein blaenoriaethau llesiant a'n nodau a rennir yng Nghymru. Mae'r amcanion llesiant a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu yn bodoli i gefnogi a gwella'r gwaith o gyflawni'r nodau hyn yn ystod y tymor llywodraethu newydd hwn.

Mae ein **Cynllun Gweithredu Economaidd** yn seiliedig ar yr egwyddor y dylai buddsoddiadau cyhoeddus fod â phwrpas cymdeithasol. Yn ganolog i'r Cynllun mae'r Contract Economaidd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhai y mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi ynddynt ddangos twf cynhwysol, gwaith teg, hybu iechyd (gyda phwyslais arbennig ar iechyd meddwl), sgiliau a dysgu yn y gweithle, a chynnydd o ran lleihau'r ôl troed carbon.

Mae ein hymrwymiad i waith teg a chynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol yn cynnwys cyflawni'r Warant i Bobl Ifanc ac addewid i greu 125,000 o brentisiaethau ar gyfer pobl o bob oedran. Disgwyliaf ichi chwilio am gyfleoedd i gyfrannu at y Warant i Bobl Ifanc a'n nod o ddarparu 125,000 o brentisiaethau drwy gydol y tymor llywodraethu.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i gryfhau'r Contract Economaidd hwn a byddwn yn parhau i fonitro eich cynnydd o ran cyflawni yn erbyn egwyddorion y cynllun hwn.

Nod ein **Contract Diwylliannol** yw sicrhau bod gan brosiectau diwylliannol a chreadigol sy'n derbyn arian cyhoeddus  ddibenion cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Wrth wraidd y Contract Diwylliannol mae pedwar ymrwymiad, gan gynnwys gwella amrywiaeth byrddau, gweithlu a rhaglenni gwaith sefydliadau, ochr yn ochr â chyfleoedd cynyddol i artistiaid unigol a gweithwyr llawrydd creadigol.

Mae Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru yn amlinellu tri uchelgais â blaenoriaeth, ein partneriaethau presennol a'n cysylltiadau rhyngwladol â blaenoriaeth. Dylai cyrff Diwylliant, y Celfyddydau a Chwaraeon a noddir weithio'n agos gyda Thîm Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn ystod y tymor llywodraethu hwn i arwain a chyfrannu at ymgyrchoedd, rhaglenni a phrosiectau sy'n helpu i roi lle amlwg i Gymru ar lwyfan byd-eang.

Dylai gweithio gyda'r Cymry sydd ar wasgar a chyda phartneriaid rhyngwladol wedi'u targedu er budd economaidd, diwylliannol a chymdeithasol pob parti gael eu hadlewyrchu yn eich cynlluniau strategol a gweithredol.

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn bartner pwysig ar gyfer twristiaeth Cymru. Mae cynyddu'r hyn sydd ar gael mewn perthynas â thwristiaeth ddiwylliannol yn parhau i fod yn flaenoriaeth, a dylid adlewyrchu Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 – 2025 yn eich cynlluniau busnes, a hoffwn eich annog i greu a chynnal cysylltiadau cryf â thîm datblygu twristiaeth Llywodraeth Cymru wrth datblygu'r maes gwaith hwn.

**Y Gymraeg**

Mae'r strategaeth Cymraeg 2050 yn parhau i fod yn rhan ganolog o'n hymdrechion i gyflawni'r nod llesiant o sicrhau bod y Gymraeg ffynnu, ac o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rwy'n disgwyl i'r Gymraeg fod yn rhan annatod o bopeth rydych yn ei wneud, gan ddathlu dwyieithrwydd a galluogi pobl Cymru i ddefnyddio'r iaith fel rhan o'u bywydau bob dydd. Bydd canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn cael eu cyhoeddi yn ystod y tymor llywodraethu hwn, a byddwn yn diweddaru rhaglen waith Cymraeg 2050 ar gyfer y strategaeth. Ond bydd y tair prif thema yn parhau – cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau ffafriol lle y gall y Gymraeg ffynnu.

**Strategaeth Ddiwylliannol**

Yn ystod y tymor llywodraethu hwn byddwn yn creu ac yn cyhoeddi strategaeth ddiwylliannol newydd i Gymru a fydd yn diffinio ein blaenoriaethau diwylliannol ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Fel partneriaid allweddol, hoffwn weld y cyrff a noddir yn fy mhortffolio yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r strategaeth newydd ac, ar ôl ei chyhoeddi, dylai'r strategaeth fod yn sail i lawer o'ch gweithgareddau cynllunio a gweithredol hirdymor.

Bydd Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru newydd hefyd yn cael ei datblygu yn ystod y tymor llywodraethu hwn, gan gysylltu penderfyniadau ynghylch buddsoddi cyfalaf â chyflawni canlyniadau strategol allweddol. Disgwylir i'r rhai sy'n derbyn grantiau cyfalaf ddarparu tystiolaeth feintiol sy'n dangos sut mae'r buddsoddiad yn helpu i gyflawni'r canlyniadau hynny.

**Strategaeth Ddigidol i Gymru**

Mae'r Strategaeth Ddigidol yn ceisio trawsnewidiad digidol gwirioneddol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, ac mae'n rhoi cyfle i gefnogi'r ffyrdd o weithio a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Hoffwn ichi roi sicrwydd bod eich holl wasanaethau ar gael ar-lein cyn belled ag y bo modd, ac y bydd pobl yn dewis defnyddio'r gwasanaethau hyn oherwydd eu bod wedi'u cynllunio'n dda ac yn hawdd eu defnyddio. Gofynnir ichi nodi cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid yn y sector treftadaeth ddiwylliannol ar fentrau digidol i hyrwyddo pobl i ddefnyddio eich casgliadau a'ch adnoddau ac i hyrwyddo dysgu, addysg a mwynhad.

**Dawn Bowden AS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nancy Edwards
Cadeirydd - Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Ffordd Penglais
Aberystwyth
SY23 3BU

22 Rhagfyr 2021

Annwyl Nancy,

**Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth ar gyfer Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**

Hoffwn ddiolch i Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (y Comisiwn Brenhinol) am y gwaith pwysig y mae wedi'i wneud wrth ymateb i bandemig Covid-19. Mae'r cyrff a noddir yn fy mhortffolio wedi dangos arweinyddiaeth, hyblygrwydd a gwydnwch yn ystod amgylchiadau heriol. Rhaid inni symud yn awr i sicrhau bod buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn cefnogi adferiad ein sectorau, ein pobl a Chymru gyfan. Er gwaethaf yr heriau difrifol iawn y mae wedi'u cyflwyno, mae cyfle i ni geisio'r dysgu cadarnhaol o Covid-19, a chynnal y momentwm a gyflawnwyd ar y mynediad gwell i ddiwylliant drwy ddigido, technolegau digidol newydd, a digwyddiadau digidol.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'i hymrwymiadau i bobl Cymru. Yn gyfnewid am y cyllid grant y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu, gofynnaf i'r Comisiwn Brenhinol ystyried sut y gall gyflawni ei gyfrifoldebau mewn ffordd sy'n gyson â gwerthoedd Llywodraeth Cymru.

Dylai ein nodau a rennir gynnwys:

- Datgarboneiddio;
- Mynd i'r afael â phob anghydraddoldeb a sicrhau Cymru wrth-hiliol;
- Gwella mynediad a chyfranogiad i bawb;
- Hyrwyddo iechyd a llesiant;
- Creu cyfleoedd i bobl ifanc; a
- Cyflwyno delwedd bwerus a chadarnhaol o Gymru i'r byd.

Yn Atodiad A, rwyf wedi amlinellu'r meysydd lle rwy'n teimlo y gall y Comisiwn Brenhinol gyfrannu at gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu. Mae'r cyd-destun strategol presennol ar gyfer gwaith cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru i'w gweld yn Atodiad B.

Bydd y Comisiwn Brenhinol yn bartner cyflawni allweddol ar gyfer nifer o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys diogelu enwau lleoedd Cymru. Edrychaf ymlaen at gael eich cefnogaeth a'ch arbenigedd gwerthfawr wrth fwrw ymlaen â'r ymrwymiadau hyn.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn bwysig er mwyn cyflawni ein nod o ehangu mynediad, cyfranogiad ac ymgysylltu. Yr wyf yn argyhoeddedig y gallai'r cyrff a noddir o fewn fy mhortffolio gyflawni cymaint mwy wrth gydweithio, ac fe'ch anogaf i gydweithio fel arweinwyr diwylliannol i wneud y mwyaf o'ch effaith.

Yn ogystal â gwaith craidd y Comisiwn Brenhinol, fel y nodir yn ei Warant Frenhinol, cynnal eich cyfrifoldebau statudol a'ch safonau proffesiynol gan gynnwys eich statws fel Man Adneuo cydnabyddedig ar gyfer cofnodion cyhoeddus a chadw Achrediad Gwasanaeth Archifau, gwelaf gyfleoedd pellach i'r Comisiwn Brenhinol gyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu. Mae hyn yn cynnwys ehangu eich gwaith yn hyrwyddo'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol a Chynllun Ymaddasu'r Sector Amgylchedd Hanesyddol a Newid yn yr Hinsawdd, yn ogystal â datblygu mentrau newydd mewn ymateb i'n hamcanion craidd.

Yn unol â'r Ddogfen Fframwaith, sy'n sail i'r berthynas rhwng y Comisiwn Brenhinol a Llywodraeth Cymru, dylech symud yn awr i adolygu eich cynlluniau busnes, gan ddangos sut y byddwch yn cyflawni yn erbyn y meysydd a amlinellir yn y llythyr hwn a'i atodiadau.

Mae llawer i'w wneud, ond yr wyf yn argyhoeddedig y gall fy mhortffolio wneud gwahaniaeth cadarnhaol a pharhaol i fywydau pobl. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyflawni hyn.

Yn gywir



**Dawn Bowden AS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**

cc Christopher Catling, Ysgrifennydd

**ATODIAD A: Y Prif Amcanion y bydd angen eu cyflawni**

**Ar gyfer pob un o'r prif gyflawniadau hyn, bydd fy swyddogion yn gweithio gyda chi i benderfynu, a chytuno ar ddangosyddion perfformiad priodol cyn y flwyddyn ariannol 2022-23. Dylid adrodd ar y dangosyddion perfformiad hyn bob chwarter, fel rhan o'r trefniadau monitro rheolaidd, a thrwy gydol y tymor hwn o Lywodraeth.**

**1. Darparu gofal iechyd effeithiol, o ansawdd uchel a chynaliadwy**

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn pwysleisio gwella'r ddarpariaeth iechyd meddwl ac mae'n canolbwyntio ar atal, cefnogi pobl i fyw bywydau iach, mynd i'r afael â stigma ym maes iechyd meddwl, a chyflwyno fframwaith Cymru gyfan i gyflwyno rhagnodi cymdeithasol fel ffordd o fynd i'r afael ag unigrwydd.

Hoffwn i'r Comisiwn Brenhinol:

- Gweithredu ffyrdd o gefnogi iechyd meddwl da ar draws y sefydliad, gan sicrhau nad oes stigma ynghlwm wrth faterion iechyd meddwl;
- Sicrhau bod y gweithlu wedi'i hyfforddi'n briodol i gefnogi'r rhai sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl;
- Ymgysylltu â'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith arfaethedig ar gyfer Cymru gyfan ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol, ac, yn benodol, gweithio i nodi meysydd lle gallai'r Comisiwn Brenhinol gefnogi presgripsiynu cymdeithasol i fynd i'r afael ag unigrwydd a chefnogi lles.

**2. Diogelu, ail-adeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed**

Mae ffocws y Rhaglen Lywodraethu yn y maes hwn yn ymwneud â gwasanaethau gofal integredig, gan gefnogi dinasyddion sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n wynebu'r heriau mwyaf. Credaf y dylai ein cyrff a noddir helpu pobl Cymru i fyw bywydau ystyrlon, a dylech ystyried sut y gallwch wella eich cefnogaeth i bobl mewn grwpiau agored i niwed a / neu ddifreintiedig.

Hoffwn i'r Comisiwn Brenhinol:

- Sicrhau y gall yr ystod ehangaf o grwpiau agored i niwed ymgysylltu â diwylliant Cymru ac nad ydynt yn cael eu heithrio rhag cymryd rhan. Dylai hyn gynnwys nodi a darparu cyfleoedd penodol sy'n galluogi pobl mewn grwpiau agored i niwed neu ddifreintiedig a'r rhai mewn cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa o'r gwasanaethau a gynigiwch.
- Bod yn rhagweithiol ynghylch sicrhau bod y sefydliad yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fod yn genedl sy'n ystyriol o oedran;
- Adolygwch eich cefnogaeth bresennol i gymunedau B/byddar ac i'r rhai sy'n byw gydag anableddau eraill, gan gynnwys anableddau cudd, a gweithio tuag at barhau i wella'r gwasanaethau hyn.

### 3. Adeiladu economi yn seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol

Gan gyd-fynd â chryfhau ein Contract Economaidd, mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ceisio sicrhau ffocws o'r newydd ar bobl ifanc drwy Warant Pobl Ifanc. Mae partneriaeth gymdeithasol, swyddi cynaliadwy, hyrwyddwyr cyflogaeth pobl anabl, a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol yn elfennau allweddol o'r ymrwymiad hwn.

Hoffwn i'r Comisiwn Brenhinol:

- Darparu ystod newydd neu well o opsiynau i gefnogi pobl ifanc Cymru i gael gwaith – gallai'r rhain gynnwys prentisiaethau, hyfforddiant, profiad gwaith a rhaglenni mentora a dylent gyd-fynd â'r Warant Person Ifanc;
- Defnyddio'r rhwydwaith newydd o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl i helpu i gau'r bwlch rhwng pobl anabl a gweddill y boblogaeth sy'n gweithio;
- Gweithio tuag at darged o 30% o leiaf ar gyfer gweithio gartref;
- Datblygu a chryfhau eich prosesau caffael presennol i helpu i gefnogi cadwyni cyflenwi lleol.

### 4. Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni wneud y cynnydd mwyaf tuag at ddatgarboneiddio

Mae gan ein Rhaglen Lywodraethu bwyslais ar dwf cynaliadwy, ac ar seilwaith digidol, economaidd a thrafnidiaeth newydd a all helpu i ail-ysgogi ein cymunedau.

Hoffwn i'r Comisiwn Brenhinol:

- Gweithio i ddiogelu enwau lleoedd Cymru drwy arwain grŵp gorchwyl a gorffen a fydd yn nodi, datblygu a gwneud argymhellion i'r Comisiwn Brenhinol ar sut y gallant wella a hyrwyddo'r rhestr o enwau lleoedd hanesyddol;
- Cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030;
- Cefnogi targed Llywodraeth Cymru o 45% o deithiau sy'n cael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040;
- Adolygwch eich gweithgarwch digidol cyfredol ar ôl i ymgysylltu digidol gyflymu'n ddiweddar yn ystod Covid-19. Dylech nodi a mynd i'r afael â meysydd o wendid, chwilio am enghreifftiau o arfer gorau o fewn eich sefydliad eich hun a chan sefydliadau eraill, a cheisio adeiladu ar lwyddiannau 2020-21.

## 5. Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn

Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar drawsnewid gwyrdd fel rhan o'n huchelgais i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Hoffwn i'r Comisiwn Royal:

- Parhau â'ch gwaith yn cyfrannu at gyflawni Cynllun Ymaddasu Sector yr Amgylchedd Hanesyddol a'r Newid yn yr Hinsawdd yng Nghymru, gan arwain ar gyfer meysydd gwaith sy'n gysylltiedig ag arbenigedd y Comisiwn Brenhinol;
- Lleihau gwastraff ar draws y sefydliad er mwyn cyrraedd targedau dim gwastraff;
- Sefydlu hyrwyddwyr gwyrdd yn y gweithle;
- Sicrhau bod effaith bioamrywiaeth yn cael ei hystyried yn briodol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

## 6. Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc, eu teuluoedd a'r gweithlu addysg i sicrhau'r canlyniadau gorau i ddysgwyr, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed.

Hoffwn i'r Comisiwn Royal:

- Gweithio gyda phartneriaid yn y sector diwylliannol i ddatblygu rhaglen cyfoethogi gwyliau ysgol;
- Cefnogi'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.

## 7. Dathlu amrywiaeth a symud i ddileu anghydraddoldeb o bob math

Rhaid inni weithio gyda'n gilydd i sicrhau newid cadarnhaol, gan gydnabod ein dynoliaeth gyffredin wrth ddathlu amrywiaeth a gwahaniaeth.

Hoffwn i'r Comisiwn Brenhinol:

- Ystyried sut mae llywodraethu eich sefydliad yn cefnogi egwyddorion 'Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru' a symud ar frys i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd y mae angen gweithredu arnynt a datblygu cynllun ar gyfer gwella amrywiaeth yn y gweithlu ac ar lefel bwrdd';
- Gweithredu nodau'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a'r Cynllun Gweithredu LGBTQ;
- Sicrhau bod hanesion a diwylliannau ein cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu cynrychioli'n briodol gan y Comisiwn Brenhinol a'i bartneriaid cyflawni
- Cryfhau eich partneriaeth â sefydliadau gwirfoddol ar draws ystod eich cyfrifoldebau
- Datblygu hyrwyddwyr cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n cwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig, a gwella ymgysylltiad y Comisiwn â chymunedau anodd eu cyrraedd.

8. **Gwthio ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu**

Mae cyrff a noddir gan ddiwylliant a chwaraeon Llywodraeth Cymru yn bartneriaid allweddol o ran ehangu mynediad i'n treftadaeth, harneisio creadigrwydd, a datblygu gallu pobl Cymru ym maes chwaraeon. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i sicrhau bod gennych y cymorth sydd ei angen arnoch i gynnal eich lle priodol ar lwyfan y byd, ac, yn yr un modd, mae eich rôl wrth gyflwyno Cymru i'r byd yn bwysig. Rydych hefyd yn bartner allweddol wrth gefnogi ein hymrwymiad i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Hoffwn i'r Comisiwn Brenhinol:

- Parhau i gefnogi'r gwaith o ddiogelu a rheoli Tirwedd Lechi newydd Safle Treftadaeth y Byd Gogledd Orllewin Cymru drwy gyfrannu at ei grwpiau rheoli a chyflawni camau gweithredu yn y Cynllun Rheoli Eiddo gan gynnwys cyhoeddi'n ddwyieithog Gofalu am Dirweddau Llechi Cymru;
- Ymateb i strategaeth Cymraeg 2050 drwy barhau i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg, a thrwy greu amodau ffafriol lle gall y Gymraeg ffynnu.
- Cefnogi datblygu a gweithredu strategaeth ddiwylliant newydd i Gymru.

9. **Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi hyd yn oed yn lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt**

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i gefnogi ein partneriaid mewn llywodraeth leol, ac, mewn perthynas â'm cyfrifoldebau portffolio, mae'n tynnu sylw at sut y mae Llywodraeth Cymru am sicrhau y gall cymunedau ffynnu fel canolfannau cyfnewid cymdeithasol, hamdden, chwaraeon a diwylliant.

Hoffwn i'r Comisiwn Brenhinol:

- Cefnogi'r gwaith o reoli'r amgylchedd hanesyddol yn weithredol;
- Darparu cymorth i wasanaethau cadwraeth awdurdodau lleol a gweithio gyda Cadw ar nodi blaenoriaethau ar gyfer cofnodi asedau hanesyddol sydd mewn perygl;
- Cefnogi cyfranogiad mewn darganfod a rhannu treftadaeth amrywiol ar lefel leol;
- Parhau i weithio gyda Cadw i nodi adeiladau blaenoriaeth C20 i'w cofnodi, ac i annog ymgysylltu â'r gymuned â'r gweithgaredd hwn.

**10. Arwain Cymru mewn sgwrs ddinesig genedlaethol am ein dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar lwyfan y byd**

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn tynnu sylw at bwysigrwydd perthnasoedd byd-eang Cymru, o ddathlu gwahanol ddiwylliannau a chroesawu rhyngwladoldeb.

Mae gan y Comisiwn Brenhinol rôl bwysig i'w chwarae o ran cyflwyno Cymru i'r byd.

Hoffwn i'r Comisiwn Brenhinol:

- Datblygu partneriaethau diwylliannol rhyngwladol sy'n dod â budd i Gymru, annog ymgysylltu â hanesion amrywiol, a gwella proffil rhyngwladol Cymru;
- Ystyried cyfleoedd ar gyfer rhaglenni cyfnewid dysgu;
- Sicrhau'r defnydd gorau o dechnoleg ddigidol, digideiddio a digwyddiadau digidol yn eich gweithgareddau allgymorth fel ffordd o alluogi ymgysylltu byd-eang â diwylliant Cymru;
- Ymgysylltu â'r diaspora Cymreig.

**Atodiad B: Y Cyd-destun Strategol**

**Blaenoriaethau, Amcanion ac Ymrwymiadau Strategol Eraill**

Yn ogystal â'r hyn y gellir ei gyflawni yn Atodiad A, gallai gwaith y Comisiwn Brenhinol hefyd chwarae rhan bwysig wrth gyfrannu at flaenoriaethau polisi eraill Llywodraeth Cymru a'u cyflawni yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn parhau i fod yn sbardun pwysig i'n blaenoriaethau llesiant a'n nodau cyffredin yng Nghymru. Mae'r amcanion llesiant a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu yn bodoli i gefnogi a gwella'r gwaith o gyflawni'r nodau hyn dros y tymor hwn o Lywodraeth.

**Cymru Wyrddach**

Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei hymrwymiad i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050 ac mae wedi cyhoeddi ei chynllun Sero Net Cymru Gyfan: Gweithio Gyda'n Gilydd i Gyrraedd Sero Net (2021-2025). Ein huchelgais yw y bydd y sector cyhoeddus yn garbon niwtral erbyn 2030, gan arwain y ffordd o ran darparu Cymru Sero Net. Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn, rydym wedi cyhoeddi Canllaw Adrodd Sero Net y Sector Cyhoeddus a bydd map Llwybr y Sector Cyhoeddus yn darparu fframwaith clir ar gyfer sut y bydd y sector yn cyflawni sero net erbyn 2030.

Yn ogystal â lleihau allyriadau, mae angen i ni hefyd feithrin gwydnwch i effeithiau newid yn yr hinsawdd er mwyn sicrhau y gallwn barhau i ddarparu ein gwasanaethau cyhoeddus allweddol. Cyhoeddodd y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd ei drydydd Asesiad Risg newid yn yr Hinsawdd ar gyfer y DU, sy'n tynnu sylw at amrywiaeth o risgiau a chyfleoedd i'r amgylchedd, cymunedau a busnesau sy'n deillio o hinsawdd sy'n newid. Rhaid i Sector Cyhoeddus Cymru ddangos ei fod wedi deall ac ystyried y risgiau a'r cyfleoedd wrth ddarparu ei wasanaethau.

Yn y cyd-destun hwn, rwy'n ymwybodol bod y Comisiwn Brenhinol wedi chwarae rhan bwysig yn natblygiad cynllun ymaddasu'r sector amgylchedd hanesyddol (SAP), ac rwy'n awyddus i weld y Comisiwn Brenhinol yn parhau i gyfrannu drwy gamau gweithredu a chyflawni'r cynllun.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Y Tu Hwnt i Ailgylchu – strategaeth i wireddu'r economi gylchol yng Nghymru', sy'n amlinellu ein nodau i fod yn ddiwastraff erbyn 2050 ac ar gyfer gwneud effeithlonrwydd adnoddau yn rhan o ddiwylliant Cymru. Mae symud i economi gylchol yn hanfodol er mwyn cyflawni camau amgylcheddol allweddol.

**Cymru Decach**

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn dangos sut yr ydym yn bwriadu sicrhau'r tegwch mwyaf posibl i bawb a dileu anghydraddoldeb ar bob lefel o gymdeithas. Mae'n edrych ar sut y byddwn yn mynd i'r afael ag achosion systemig anghydraddoldeb o bob math.

Yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth, byddwn yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (REAP) newydd i Gymru, a chynllun gweithredu ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb LGBTQ+ yng Nghymru. Dylid darllen y cynlluniau gweithredu hyn ochr yn ochr â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Ein Cynllun Cydraddoldeb Rhywedd a'n Fframwaith Gweithredu ar Anabledd. Fe'u cynlluniwyd i sicrhau newid parhaus yn y tymor byr, canolig a hir, a rhaid i'n cyrff a noddir ddangos ymateb clir a rhagweithiol i gyflawni'r nodau a nodir yn y cynlluniau hyn.

Rydym eisoes wedi cynnal archwiliad o wasanaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y gymuned B/byddar ac mae'r Rhaglen Lywodraethu hefyd yn ymrwymo i gymryd camau i gefnogi pobl anabl. Mae llawer i'w wneud o hyd i'w galluogi i ymgysylltu â diwylliant a rhaid i hyn fod yn flaenoriaeth.

Rydym wedi ymrwymo i estyn allan at grwpiau agored i niwed Cymru ac ymgysylltu â hwy, gan sicrhau bod Cymru'n genedl sy'n ystyriol o oedran, ac na ddylai tlodi, anfantais gymdeithasol, afiechyd ac anabledd fod yn rhwystr rhag cymryd rhan. Dylai cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru adolygu eu gwaith gyda'r grwpiau hyn yn gyson a dylent fod yn enghreifftiau o arfer da o ran ehangu mynediad a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol.

**Cymru Iachach**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod diwylliant, y celfyddydau a chwaraeon yn cynnig ffordd o wella iechyd a lles cenedl. Felly, rhaid i gyfranogiad barhau i fod yn faes ffocws. Hoffwn weld y cyrff a noddir yn fy mhortffolio yn ymgysylltu â rhanddeiliaid newydd ac amrywiol, gan weithio gyda chynulleidfaoedd a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, a mynd ati i fynegi'r cysylltiad rhwng eich gwaith ac iechyd a lles pobl Cymru.

**Strategaethau eraill a deddfwriaeth bresennol**

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn parhau i fod yn sbardun pwysig i'n blaenoriaethau llesiant a'n nodau a rennir yng Nghymru. Mae'r amcanion llesiant a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu yn bodoli i gefnogi a gwella'r gwaith o gyflawni'r nodau hyn dros y tymor newydd hwn o lywodraeth.

Mae ein **Cynllun Gweithredu Economaidd** yn seiliedig ar yr egwyddor o fuddsoddi cyhoeddus gyda phwrpas cymdeithasol. Yn ganolog i'r Cynllun mae'r Contract Economaidd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n cael buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru ddangos twf cynhwysol, gwaith teg, hybu iechyd (gyda phwyslais arbennig ar iechyd meddwl), sgiliau a dysgu yn y gweithle, a chynnydd o ran lleihau ôl troed carbon.

Mae ein hymrwymiad i waith teg a chynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol yn cynnwys cyflawni gwarant y person ifanc ac addewid o greu 125,000 o

brentisiaethau pob oed. Disgwyliaf ichi chwilio am gyfleoedd i gyfrannu at y Warant i Bobl Ifanc a'n nod o ddarparu 125,000 o brentisiaethau drwy gydol tymor y Llywodraeth.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i gryfhau'r Contract Economaidd hwn a byddwn yn parhau i fonitro eich cynnydd o ran cyflawni yn erbyn pileri'r cynllun hwn.

Nod ein **Contract Diwylliannol** yw sicrhau bod gan gyllid cyhoeddus ar gyfer diwylliant a chreadigrwydd ddibenion cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Wrth wraidd y Contract Diwylliannol mae pedwar ymrwymiad gan gynnwys gwella amrywiaeth byrddau, gweithlu a rhaglenni gwaith sefydliadau ochr yn ochr â chyfleoedd cynyddol i artistiaid unigol a gweithwyr llawrydd creadigol.

Mae Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru yn amlinellu tri uchelgais blaenoriaeth, ein partneriaethau presennol a'n perthnasoedd rhyngwladol â blaenoriaeth. Dylai cyrff a noddir gan Ddiwylliant, y Celfyddydau a Chwaraeon weithio'n agos gyda Thîm Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn ystod y tymor hwn o lywodraeth i arwain a chyfrannu at ymgyrchoedd, rhaglenni a phrosiectau sy'n helpu Cymru i sefyll allan ar lwyfan y byd.

Dylai gweithio gyda'r diaspora Cymreig a chyda phartneriaid rhyngwladol wedi'u targedu er budd economaidd, diwylliannol a chymdeithasol cyffredinol gael eu hadlewyrchu yn eich cynlluniau strategol a gweithredol.

Mae'r Comisiwn Brenhinol yn bartner pwysig o ran twristiaeth Cymru. Mae datblygu'r cynnig twristiaeth diwylliannol yn parhau i fod yn flaenoriaeth a dylid adlewyrchu 'Croeso i Gymru – Blaenoriaethau ar gyfer economi ymwelwyr 2020-2025' yn eich cynllunio busnes.

**Yr Iaith Gymraeg**

Mae strategaeth Cymraeg 2050 yn parhau i fod yn faes ffocws yn ein hymdrechion i gyrraedd y nod llesiant o gael iaith Gymraeg ffyniannus, ac o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rwy'n disgwyl i'r Gymraeg gael ei gwreiddio'n drwyadl ym mhopeth a wnewch, gan ddathlu dwyieithrwydd a galluogi pobl Cymru i ddefnyddio'r iaith fel rhan o'u bywydau bob dydd. Bydd canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn hysbys yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth, a byddwn yn diweddaru rhaglen waith Cymraeg 2050 ar gyfer y strategaeth, ond bydd y tair prif thema yn parhau – cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau ffafriol lle gall y Gymraeg ffynnu.

**Strategaeth ddiwylliannol**

Yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth byddwn yn creu ac yn cyhoeddi strategaeth ddiwylliannol newydd i Gymru a fydd yn diffinio ein blaenoriaethau diwylliannol ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Fel partneriaid allweddol, hoffwn weld y cyrff a noddir yn fy mhortffolio yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r strategaeth newydd ac, ar ôl ei gyhoeddi, dylai'r strategaeth fod yn sail i lawer o'ch gweithgarwch cynllunio a gweithredol hirdymor.

Bydd Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru newydd hefyd yn cael ei datblygu yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth, gan gysylltu penderfyniadau ar fuddsoddi cyfalaf â chyflawni canlyniadau strategol allweddol. Disgwylir y bydd derbynwyr grantiau cyfalaf yn darparu tystiolaeth feintiol sy'n dangos sut mae'r buddsoddiad yn helpu i gyflawni'r canlyniadau hynny.

**Strategaeth Ddigidol i Gymru**

Mae'r Strategaeth Ddigidol yn ceisio trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yn wirioneddol ddigidol ac mae'n rhoi cyfle i gefnogi'r ffyrdd o weithio a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Hoffwn ichi sicrhau bod eich holl wasanaethau ar gael ar-lein cyn belled ag y bo modd, ac y bydd pobl yn dewis defnyddio'r gwasanaethau hyn oherwydd eu bod wedi'u cynllunio'n dda ac yn hawdd eu defnyddio. Nodwch gyfleoedd i weithio gyda phartneriaid yn y sector treftadaeth ddiwylliannol ar fentrau digidol i hyrwyddo defnydd o'ch casgliadau a'ch adnoddau ac i hyrwyddo dysgu, addysg a mwynhad.

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**

**Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lawrence Conway
Cadeirydd – Chwaraeon Cymru
Gerddi Sophia
Caerdydd,
CF11 9SW

22 Rhagfyr 2021

Annwyl Lawrence,

**Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth ar gyfer Chwaraeon Cymru**

Hoffwn ddiolch i Chwaraeon Cymru am y gwaith pwysig y mae wedi'i wneud wrth ymateb i bandemig Covid-19. Mae'r cyrff a noddir yn fy mhortffolio wedi dangos arweinyddiaeth, hyblygrwydd a chadernid yn ystod amgylchiadau heriol. Rhaid inni symud yn awr i sicrhau bod buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn cefnogi adferiad ein sectorau, ein pobl a Chymru gyfan. Er gwaethaf yr heriau difrifol iawn y mae wedi'u cyflwyno, mae cyfle inni fanteisio ar y gwersi cadarnhaol a ddysgwyd o Covid-19 ac ychwanegu at yr ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd chwaraeon i iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pobl.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'i hymrwymiadau i bobl Cymru. Mae chwaraeon yn hanfodol bwysig i'n heconomi ac i'n bywyd cenedlaethol. Mae ein hymrwymiadau cyhoeddedig yn cynnwys hyrwyddo mynediad cyfartal i chwaraeon, cefnogi athletwyr ifanc a thalentog a chlybiau ar lawr gwlad, buddsoddi yn ein cyfleusterau chwaraeon o'r radd flaenaf ac mewn cyfleusterau newydd, megis caeau 3G.

Yn gyfnewid am y cyllid cymorth grant y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu, gofynnaf i Chwaraeon Cymru ystyried sut y gall gyflawni ei hamcanion mewn ffordd sy'n cyd-fynd â gwerthoedd Llywodraeth Cymru.

Dylai ein nodau a rennir fod y canlynol:

- Datgarboneiddio;
- Mynd i'r afael â phob anghydraddoldeb a sicrhau Cymru wrth-hiliol;
- Gwella mynediad a chyfranogiad i bawb;
- Hyrwyddo Iechyd a Llesiant;
- Creu cyfleoedd i bobl ifanc; a
- Chyflwyno delwedd bwerus a chadarnhaol o Gymru i'r byd.

Yn Atodiad A, rwyf wedi amlinellu'r meysydd lle rwy'n teimlo y gall Chwaraeon Cymru gyfrannu at gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu. Mae'r cyd-destun strategol presennol ar gyfer gwaith cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru i'w gweld yn Atodiad B.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn bwysig er mwyn cyflawni ein nod o ehangu mynediad, cyfranogiad ac ymgysylltu. Rwyf yn argyhoeddedig y gallai'r cyrff a noddir

o fewn fy mhortffolio gyflawni cymaint mwy drwy gydweithio, ac fe'ch anogaf i gydweithio fel arweinwyr i sicrhau gymaint o effaith â phosibl.

Yn ogystal â'r prif gyflawniadau a restrir yn Atodiad A, rwy'n disgwyl i Chwaraeon Cymru:

- Gweithio gyda'r holl bartneriaid i wneud y defnydd strategol gorau o "Lle i Chwaraeon" a chyllid cyfalaf arall i gefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn ynghylch buddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon newydd o'r radd flaenaf, gan gynnwys Canolfannau a Sefydliad Cenedlaethol Chwaraeon Cymru;
- Sicrhau bod Model Buddsoddi Chwaraeon Cymru yn cael ei lywio gan y mewnwelediad diweddaraf, fel ei fod yn parhau i fod yn gywir ac yn addas i'r diben; a
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cynnig digidol drwy adolygu seilwaith a galluoedd digidol Chwaraeon Cymru a'i bartneriaid a ariennir, gan nodi cyfleoedd i wella'r cynnig i ddefnyddwyr presennol a darpar ddefnyddwyr.


Hoffwn eich atgoffa o'ch dyletswydd gyfreithiol o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. O dan Ran 1, mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i chi gyhoeddi amcanion tlodi plant fel rhan o strategaeth ar gyfer cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru. Hoffwn ichi feddwl am y camau hynny sy'n cefnogi llesiant plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi. Fe'ch anogaf i ystyried cyfleoedd i gyflawni eich rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y ddyletswydd o fewn eich prosesau sefydliadol presennol, gan gynnwys y rhai a ddefnyddir i gyflawni gofynion deddfwriaethol eraill.

Yn unol â'r Ddogfen Fframwaith, sy'n sail i'r berthynas rhwng Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru, dylech symud yn awr i adolygu eich Cynllun Busnes, gan ddangos sut y byddwch yn cyflawni yn erbyn y meysydd a amlinellir yn y llythyr hwn.

Mae'r angen i Chwaraeon Cymru weithredu'n annibynnol o ddydd i ddydd yn glir, a'm bwriad yw y bydd ein perthynas yn parhau i fod yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y cyd, ac ar gyfathrebu agored a gonest.

Mae llawer i'w wneud, ond rwyf yn argyhoeddedig y gall fy mhortffolio wneud gwahaniaeth cadarnhaol a pharhaol i fywydau pobl. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyflawni hyn.

Yn gywir,



**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**

cc Brian Davies, Prif Weithredwr Dros Dro, Chwaraeon Cymru

**Atodiad A: Y Prif Amcanion y bydd angen eu cyflawni**

**Ar gyfer pob un o'r prif gyflawniadau hyn, bydd fy swyddogion yn gweithio gyda chi i benderfynu a chytuno ar ddangosyddion perfformiad priodol cyn blwyddyn ariannol 2022-23. Dylid adrodd ar y dangosyddion perfformiad hyn bob chwarter, fel rhan o'r trefniadau monitro rheolaidd, a thrwy gydol y tymor hwn o Lywodraeth.**

## 1. Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn pwysleisio gwella'r ddarpariaeth iechyd meddwl ac mae'n canolbwyntio ar atal, cefnogi pobl i fyw bywydau iach, mynd i'r afael â stigma ym maes iechyd meddwl, a chyflwyno fframwaith Cymru gyfan i gyflwyno dull rhagnodi cymdeithasol fel ffordd o fynd i'r afael ag unigrwydd.

Hoffwn i Chwaraeon Cymru:

- Weithredu ffyrdd o gefnogi iechyd meddwl da ar draws y sefydliad a'r sector, gan sicrhau nad oes stigma ynghlwm wrth faterion iechyd meddwl;
- Sicrhau bod y gweithlu wedi'i hyfforddi'n briodol i gefnogi'r rhai sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl;
- Parhau i ymwneud â'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith arfaethedig Cymru gyfan ar gyfer rhagnodi cymdeithasol, ac, yn benodol, gwaith i nodi meysydd lle gallai Chwaraeon Cymru gefnogi rhagnodi cymdeithasol i fynd i'r afael ag unigrwydd a chefnogi llesiant;
- Gweithio ochr yn ochr â swyddogion Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu fframwaith gweithgarwch corfforol cenedlaethol sy'n cefnogi agendâu iechyd ataliol, teithio llesol, addysg weithredol a gweithleoedd gweithredol, ac yn creu cyfleoedd ac arferion ar gyfer gweithgarwch corfforol i ysgogi llesiant meddyliol a chorfforol y genedl;
- Datblygu ymgyrch newid ymddygiad, wedi'i hategu gan ymchwil sylfaenol ac ymgysylltu â'r gymuned, i ddeall yn well sut i gefnogi grwpiau penodol i fod yn fwy egnïol yn gorfforol a mwynhau manteision chwaraeon.

## 2. Diogelu, ail-adeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed

Mae ffocws y Rhaglen Lywodraethu yn y maes hwn yn ymwneud â gwasanaethau gofal integredig, a chefnogi dinasyddion sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n wynebu'r heriau mwyaf. Credaf y dylai ein cyrff a noddir helpu pobl Cymru i fyw bywydau ystyrlon, a rhaid iddynt ystyried sut y gallant wella eu cefnogaeth i'r bobl hynny sydd mewn grwpiau agored i niwed a / neu ddifreintiedig.

Hoffwn i Chwaraeon Cymru:

- Sicrhau y gall yr ystod ehangaf o grwpiau agored i niwed ymwneud â chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru ac nad ydynt yn cael eu heithrio rhag cymryd rhan. Dylai hyn gynnwys nodi a darparu cyfleoedd penodol sy'n galluogi pobl mewn grwpiau agored i niwed neu ddifreintiedig a'r rhai mewn

cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol;

- Ystyried y cyfleoedd a gynigir ar hyn o bryd i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, a sut y gellid gwella'r rhain;
- Bod yn rhagweithiol ynghylch sicrhau bod y sefydliad yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fod yn genedl sy'n ystyriol o oedran;
- Adolygu eich cefnogaeth bresennol i gymunedau B/byddar ac i'r rhai sy'n byw gydag anableddau eraill, gan gynnwys anableddau cudd, a gweithio tuag at wella'r gwasanaethau hyn yn barhaus.

## 3. Adeiladu economi yn seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol

Gan gyd-fynd â chryfhau ein Contract Economaidd, mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ceisio sicrhau ffocws o'r newydd ar bobl ifanc drwy Warant Pobl Ifanc. Mae partneriaeth gymdeithasol, swyddi cynaliadwy, hyrwyddwyr cyflogaeth pobl anabl, a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol yn elfennau allweddol o'r ymrwymiad hwn.

Hoffwn i Chwaraeon Cymru:

- Darparu ystod newydd neu well o opsiynau i gefnogi pobl ifanc Cymru i gael gwaith – gallai'r rhain gynnwys prentisiaethau, hyfforddiant, profiad gwaith a rhaglenni mentora a dylent gyd-fynd â'r Warant Person Ifanc;
- Defnyddio'r rhwydwaith newydd o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl i helpu i gau'r bwlch rhwng pobl anabl a gweddill y boblogaeth sy'n gweithio;
- Gweithio tuag at darged o 30% o leiaf ar gyfer gweithio gartref, yn seiliedig ar ddull cyfunol sy'n deg ac yn gyfiawn;
- Datblygu a chryfhau eich prosesau caffael presennol i helpu i gefnogi cadwyni cyflenwi lleol;
- Adeiladu a chryfhau partneriaethau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol er budd Chwaraeon Cymru, economi Cymru a phobl Cymru.

## 4. Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni wneud y cynnydd mwyaf tuag at ddatgarboneiddio

Mae gan ein Rhaglen Lywodraethu bwyslais ar dwf cynaliadwy, ac ar seilwaith digidol, economaidd a thrafnidiaeth newydd a all helpu i ail-ysgogi ein cymunedau.

Hoffwn i Chwaraeon Cymru:

- Cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030;
- Cefnogi targed Llywodraeth Cymru o 45% o deithiau sy'n cael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040;
- Blaenoriaethu adolygiad o'ch seilwaith digidol a chyfathrebu presennol ar ôl cyflymu gweithgarwch digidol yn ddiweddar yn ystod Covid-19. Dylech nodi a mynd i'r afael â meysydd o wendid, chwilio am enghreifftiau o arfer gorau o fewn eich sefydliad a chan sefydliadau eraill, a cheisio adeiladu ar lwyddiannau 2020/21.

## 5. Ymgorfforі ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn

Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar drawsnewid gwyrdd fel rhan o'n huchelgais i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Hoffwn i Chwaraeon Cymru:

- Ganolbwyntio ar leihau gwastraff ar draws y sefydliad cyfan a gweithio i gyflawni targedau dim gwastraff a diddymu'r defnydd o blastigau untro sy'n fwy cyffredin;
- Caffael cynhyrchion carbon isel;
- Sefydlu hyrwyddwyr gwyrdd yn y gweithle;
- Sicrhau bod effaith bioamrywiaeth yn cael ei hystyried yn briodol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau;
- Gweithio gyda chyrff fel WRAP Cymru a'r Ymddiriedolaeth Garbon i gefnogi'r sector chwaraeon i ddod o hyd i atebion i'r argyfwng hinsawdd a natur.

## 6. Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc, eu teuluoedd a'r gweithlu addysg i sicrhau'r canlyniadau gorau i ddysgwyr, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed.

Hoffwn i Chwaraeon Cymru:

- Weithredu a gwerthuso'r Rhaglen Beilot Braenaru Addysg Weithredol, ac ystyried sut y gellid ei hymgorffori i gefnogi'r gwaith o gyflwyno cwricwlwm newydd ac iechyd a llesiant plant ochr yn ochr â chymorth penodol i'r proffesiwn addysgu wrth weithredu'r cwricwlwm newydd, ac ystyriaeth ehangach o sut y gallai diwygio'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol effeithio ar y gwasanaethau a'r cyfleoedd y mae'r sector chwaraeon yn eu darparu;
- Datblygu rhaglenni sgiliau a chyflogadwyedd sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, gan annog pobl ifanc i mewn i'r sector;
- Sefydlu prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli i gefnogi a datblygu gweithlu'r genhedlaeth nesaf.

## 7. Dathlu amrywiaeth a symud i ddileu anghydraddoldeb o bob math

Rhaid inni weithio gyda'n gilydd i sicrhau newid cadarnhaol, gan gydnabod ein dynoliaeth gyffredin wrth ddathlu amrywiaeth a gwahaniaeth.

Hoffwn i Chwaraeon Cymru:

- Flaenoriaethu amrywiaeth, cynhwysiant a chydraddoldeb ledled y sector er mwyn sicrhau ein bod yn deall ac yn goresgyn rhwystrau i gyfranogiad;
- Datblygu eich rhwydwaith o Bartneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol ymhellach i ymateb yn gadarnhaol i anghydraddoldebau lleol a hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch i bawb;

- Ystyried sut y mae llywodraethu'r sefydliad yn cefnogi egwyddorion 'Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru' a symud i fynd i'r afael ar frys ag unrhyw feysydd y mae angen gweithredu arnynt – rhaid i hyn gynnwys gwella amrywiaeth yn y gweithlu ac ar lefel Bwrdd;
- Gweithredu nodau'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, gan ystyried sut y bydd Chwaraeon Cymru yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni Cymru wrth-hiliol;
- Gweithredu nodau'r Cynllun Gweithredu LGBTQ+;
- Mynd i'r afael ag unrhyw fylchau cyflog sy'n weddill yn seiliedig ar ryw, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd, anabledd, a mathau eraill o wahaniaethu a allai fodoli yn eich sefydliad, a mynd i'r afael ar frys ag unrhyw wahaniaethau cyflog parhaus;
- Sicrhau bod hanesion a diwylliannau ein cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu cynrychioli'n briodol gan Chwaraeon Cymru a'i bartneriaid cyflawni;
- Parhau i gryfhau eich partneriaethau gyda sefydliadau gwirfoddol ar draws ystod eich cyfrifoldebau;
- Parhau i gefnogi, ariannu a gweithio gyda sefydliadau sy'n darparu barn a phrofiadau bywyd grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol y mae eich gwaith yn effeithio arnynt wrth ichi wneud penderfyniadau;
- Gweithio gyda'r rhwydwaith newydd o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl i helpu i gau'r bwlch rhwng pobl anabl a gweddill y boblogaeth sy'n gweithio;
- Datblygu hyrwyddwyr cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n cwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig;
- Gwella ymgysylltiad Chwaraeon Cymru â chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol.

## 8. Gwthio ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu

Mae cyrff ym maes y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon a noddir gan Lywodraeth Cymru yn bartneriaid allweddol o ran ehangu mynediad i'n treftadaeth, harneisio creadigrwydd, a datblygu gallu pobl Cymru i gymryd rhan mewn chwaraeon. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i sicrhau bod gennych y cymorth sydd ei angen arnoch i gynnal eich lle priodol ar lwyfan y byd, ac mae eich rôl o ran adlewyrchu Cymru i'r byd yr un mor bwysig. Rydych hefyd yn bartneriaid allweddol wrth gefnogi ein hymrwymiad i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Hoffwn i Chwaraeon Cymru:

- Ymateb i strategaeth Cymraeg 2050 drwy barhau i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg, a thrwy greu amodau ffafriol lle gall y Gymraeg ffynnu;
- Parhau i ddatblygu fel sefydliad cwbl ddwyieithog fel y nodir yn Safonau'r Gymraeg (Rhif. 2) Rheoliadau 2016, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i sicrhau bod yr holl staff yn cael y cyfle a'r gefnogaeth i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle;
- Defnyddio'r dull partneriaeth rhanbarthol i sbarduno datblygiad cynigion chwaraeon cyfrwng Cymraeg;

- Annog Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol a derbynwyr cyllid eraill i ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg wrth gynllunio a darparu gwasanaethau;
- Ystyried sut y gall gefnogi nodau strategaeth 'Croeso i Gymru – Blaenoriaethau ar gyfer economi ymwelwyr 2020-2025' Llywodraeth Cymru mewn cyd-destun chwaraeon;
- Darparu model gweithredu hirdymor newydd, cynaliadwy ar gyfer Plas Menai sy'n cyfrannu gymaint â phosibl at dwristiaeth ac effaith gymdeithasol ac economaidd ehangach gogledd Cymru;
- Rhoi cymorth a chyngor i Lywodraeth Cymru ac eraill i gefnogi cais y DU i gynnal Cwpan y Byd FIFA 2030.

## 9. Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi hyd yn oed yn lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i gefnogi ein partneriaid mewn llywodraeth leol, ac, mewn perthynas â'm cyfrifoldebau portffolio, mae'n tynnu sylw at sut y mae Llywodraeth Cymru am sicrhau y gall cymunedau ffynnu fel canolfannau cyfnewid cymdeithasol, hamdden, chwaraeon a diwylliant.

Hoffwn i Chwaraeon Cymru:

- Weithio gyda chymunedau, grwpiau ac unigolion lleol i rannu arfer da, datblygu sgiliau, a sefydlu rhwydweithiau newydd a chryf ledled Cymru;
- Gweithio'n agosach gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi effaith etifeddiaeth digwyddiadau mawr;
- Parhau i ddarparu cyngor ac arweiniad fel y bo'n briodol ar achosion busnes Ysgolion yr 21ain Ganrif a cheisiadau'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol.

## 10. Arwain Cymru mewn sgwrs ddinesig genedlaethol am ein dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar lwyfan y byd

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn tynnu sylw at bwysigrwydd perthnasoedd byd-eang Cymru, o ddathlu gwahanol ddiwylliannau a chroesawu rhyngwladoldeb.

Mae gan Chwaraeon Cymru rôl bwysig i'w chwarae o ran adlewyrchu Cymru i'r byd.

Hoffwn i Chwaraeon Cymru:

- Ddatblygu partneriaethau rhyngwladol sy'n dod â budd i Gymru, gwella proffil rhyngwladol Cymru, a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i arddangos Cymru i'r byd;
- Ystyried pa gamau y gallai eu cymryd i ymateb i adroddiad y Cyngor Prydeinig "Tuag at Strategaeth Diplomyddiaeth Chwaraeon i Gymru";
- Gweithio gyda Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol a rhanddeiliaid allweddol eraill i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i Gymru ar lwyfan y byd a gyflwynwyd gan Gemau'r Gymanwlad 2022 yn Birmingham.

**Atodiad B: Y Cyd-destun Strategol**

**Blaenoriaethau, Amcanion ac Ymrwymiadau Strategol Eraill**

Yn ogystal â'r hyn y gellir ei gyflawni yn Atodiad A, gallai gwaith Chwaraeon Cymru hefyd chwarae rhan bwysig wrth gyfrannu at flaenoriaethau polisi eraill Llywodraeth Cymru a'u cyflawni yn ystod y tymor hwn o lywodraeth.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn parhau i fod yn sbardun pwysig i'n blaenoriaethau llesiant a'n nodau cyffredin yng Nghymru. Mae'r amcanion llesiant a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu yn bodoli i gefnogi a gwella'r gwaith o gyflawni'r nodau hyn dros y tymor hwn o Lywodraeth.

**Cymru Wyrddach**

Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei hymrwymiad i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050 ac mae wedi cyhoeddi ei chynllun Sero Net Cymru Gyfan: Gweithio Gyda'n Gilydd i Gyrraedd Sero Net (2021-2025). Ein huchelgais yw y bydd y sector cyhoeddus yn garbon niwtral erbyn 2030, gan arwain y ffordd o ran darparu Cymru Sero Net. Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn, rydym wedi cyhoeddi Canllaw Adrodd Sero Net y Sector Cyhoeddus a bydd map Llwybr y Sector Cyhoeddus yn darparu fframwaith clir ar gyfer sut y bydd y sector yn cyflawni sero net erbyn 2030.

Yn ogystal â lleihau allyriadau, mae angen i ni hefyd feithrin y gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd er mwyn sicrhau y gallwn barhau i ddarparu ein gwasanaethau cyhoeddus allweddol. Cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd ei drydydd Asesiad Risg Newid Hinsawdd ar gyfer y DU, sy'n tynnu sylw at amrywiaeth o risgiau a chyfleoedd mewn perthynas â’r amgylchedd, cymunedau a busnesau sy'n deillio o hinsawdd sy'n newid. Rhaid i Sector Cyhoeddus Cymru ddangos ei fod wedi deall ac ystyried y risgiau a'r cyfleoedd wrth ddarparu ei wasanaethau.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Mwy nag Ailgylchu – strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti', sy'n amlinellu ein nodau i fod yn ddiwastraff erbyn 2050 ac ar gyfer gwneud effeithlonrwydd adnoddau yn rhan o ddiwylliant Cymru. Mae symud i economi gylchol yn hanfodol er mwyn cyflawni camau amgylcheddol allweddol, a byddaf am weld Chwaraeon Cymru yn ymateb i brif camau gweithredu’r strategaeth hon.

**Cymru Decach**

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn dangos sut yr ydym yn bwriadu sicrhau'r tegwch mwyaf posibl i bawb a dileu anghydraddoldeb ar bob lefel o gymdeithas. Mae'n edrych ar sut y byddwn yn mynd i'r afael ag achosion systemig anghydraddoldeb o bob math.

Yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth, byddwn yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (REAP) newydd i Gymru, a chynllun gweithredu ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb LGBTQ+ yng Nghymru. Dylid darllen y cynlluniau gweithredu hyn ochr yn ochr â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Ein Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol a'n Fframwaith Gweithredu ar Anabledd. Fe'u cynlluniwyd i sicrhau newid parhaus yn y

tymor byr, canolig a hir, a rhaid i'n cyrff a noddir ddangos ymateb clir a rhagweithiol i gyflawni'r nodau a nodir yn y cynlluniau hyn.

Rydym eisoes wedi cynnal archwiliad o wasanaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y gymuned B/byddar ac mae'r Rhaglen Lywodraethu hefyd yn ymrwymo i gymryd camau i gefnogi pobl anabl. Mae llawer i'w wneud o hyd i'w galluogi i ymwneud â chwaraeon a gweithgarwch corfforol a rhaid i hyn fod yn flaenoriaeth.

Rydym wedi ymrwymo i estyn allan at grwpiau agored i niwed Cymru ac ymgysylltu â hwy, gan sicrhau bod Cymru'n genedl sy'n ystyriol o oedran, ac na ddylai tlodi, anfantais gymdeithasol, afiechyd ac anabledd fod yn rhwystr i'r rhai sydd am gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Dylai cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru adolygu eu gwaith gyda'r grwpiau hyn yn gyson a dylent fod yn enghreifftiau o arfer da o ran ehangu mynediad a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol, gyda Chwaraeon Cymru yn cymryd cyfrifoldeb clir dros sicrhau y gall grwpiau agored i niwed ymwneud yn briodol â chwaraeon yng Nghymru.

## Cymru Iachach

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod diwylliant, y celfyddydau a chwaraeon yn cynnig ffordd o wella iechyd a lles cenedl. Felly, rhaid i gyfranogiad barhau i fod yn faes ffocws. Hoffwn weld y cyrff a noddir yn fy mhortffolio yn ymgysylltu â rhanddeiliaid newydd ac amrywiol, gan weithio gyda chynulleidfaoedd a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, a mynd ati i fynegi'r cysylltiad rhwng eich gwaith ac iechyd a llesiant pobl Cymru.

## Strategaethau eraill a deddfwriaeth bresennol

**Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn parhau i fod yn sbardun pwysig i'n blaenoriaethau llesiant a'n nodau a rennir yng Nghymru. Mae'r amcanion llesiant a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu yn bodoli i gefnogi a gwella'r gwaith o gyflawni'r nodau hyn dros y tymor newydd hwn o lywodraeth.

Mae ein **Cynllun Gweithredu ar yr Economi** yn seiliedig ar yr egwyddor o fuddsoddi cyhoeddus gyda phwrpas cymdeithasol. Yn ganolog i'r Cynllun mae'r Contract Economaidd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n cael buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru ddangos twf cynhwysol, gwaith teg, hybu iechyd (gyda phwyslais arbennig ar iechyd meddwl), sgiliau a dysgu yn y gweithle, a chynnydd o ran lleihau ôl troed carbon.

Mae ein hymrwymiad i waith teg a chynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol yn cynnwys cyflawni gwarant y person ifanc ac addewid o greu 125,000 o brentisiaethau pob oed. Disgwyliaf ichi chwilio am gyfleoedd i gyfrannu at y Warant i Bobl Ifanc a'n nod o ddarparu 125,000 o brentisiaethau drwy gydol tymor y llywodraeth.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i gryfhau'r Contract Economaidd hwn a byddwn yn parhau i fonitro eich cynnydd o ran cyflawni yn erbyn pileri'r cynllun hwn.

Credaf fod gan ein cyrff chwaraeon a diwylliannol a noddir rôl bwysig i'w chwarae o ran codi proffil rhyngwladol Cymru, wrth rannu llwyddiannau a hanesion unigol a chyfunol ein cenedl â'r byd.

Mae Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru yn amlinellu tri uchelgais blaenoriaeth, ein partneriaethau presennol a'n perthnasoedd rhyngwladol â blaenoriaeth. Gofynnaf ichi weithio'n agos gyda Thîm Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth i arwain a chyfrannu at ymgyrchoedd, rhaglenni a phrosiectau sy'n helpu Cymru i sefyll allan ar lwyfan y byd.

Dylai rhan o'r gwaith hwn gynnwys eich ymateb i adroddiad y Cyngor Prydeinig "Tuag at Strategaeth Diplomyddiaeth Chwaraeon i Gymru". Dylai gweithio gyda'r diaspora Cymreig a chyda phartneriaid rhyngwladol wedi'u targedu er budd economaidd, diwylliannol a chymdeithasol cydfuddiannol gael eu hadlewyrchu yn eich cynlluniau strategol a gweithredol.

Mae Chwaraeon Cymru yn bartner pwysig o ran twristiaeth yng Nghymru. Mae tyfu'r cynnig twristiaeth chwaraeon yn parhau i fod yn flaenoriaeth a dylid adlewyrchu 'Croeso i Gymru – Blaenoriaethau ar gyfer yr economi ymwelwyr 2020-2025' yn eich cynlluniau busnes, ac fe'ch anogaf i greu a chynnal cysylltiadau cryf â thîm datblygu twristiaeth Llywodraeth Cymru wrth hyrwyddo'r maes gwaith hwn.

**Yr Iaith Gymraeg**

Mae strategaeth Cymraeg 2050 yn parhau i fod yn faes ffocws yn ein hymdrechion i gyrraedd y nod llesiant o sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu, ac o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rwy'n disgwyl i'r Gymraeg gael ei gwreiddio'n drwyadl ym mhopeth a wnewch, gan ddathlu dwyieithrwydd a galluogi pobl Cymru i ddefnyddio'r iaith fel rhan o'u bywydau bob dydd. Bydd canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn hysbys yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth, a byddwn yn diweddaru rhaglen waith Cymraeg 2050 ar gyfer y strategaeth, ond bydd y tair prif thema yn parhau – cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau ffafriol lle gall y Gymraeg ffynnu.

**Strategaeth ddiwylliannol**

Yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth byddwn yn creu ac yn cyhoeddi strategaeth ddiwylliannol newydd i Gymru a fydd yn diffinio ein blaenoriaethau diwylliannol ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Fel partneriaid allweddol, hoffwn weld y cyrff a noddir yn fy mhortffolio yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r strategaeth newydd ac, ar ôl ei gyhoeddi, dylai'r strategaeth fod yn sail i lawer o'ch gweithgarwch cynllunio a gweithredol hirdymor.

Bydd Strategaeth newydd ar gyfer Buddsoddi yn Seilwaith Cymru hefyd yn cael ei datblygu yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth, gan gysylltu penderfyniadau ar fuddsoddi cyfalaf â chyflawni canlyniadau strategol allweddol. Ein disgwyliad yw y bydd derbynwyr grantiau cyfalaf yn darparu tystiolaeth feintiol sy'n dangos sut mae'r buddsoddiad yn helpu i gyflawni'r canlyniadau hynny.

**Strategaeth Ddigidol i Gymru**

Mae'r Strategaeth Ddigidol yn ceisio trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yn ddigidol ac mae'n rhoi cyfle i gefnogi'r ffyrdd o weithio a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Hoffwn ichi sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod eich holl wasanaethau ar gael ar-lein ac y bydd pobl yn dewis defnyddio'r gwasanaethau hyn oherwydd eu bod wedi'u cynllunio'n dda ac yn hawdd eu defnyddio. Nodwch gyfleoedd i weithio gyda phartneriaid yn y sector chwaraeon ar fentrau digidol i hyrwyddo ymgysylltiad â chwaraeon ac i hyrwyddo dysgu, addysg a mwynhad.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon